



# Y GYMRAEG YN GOROESI GLOBALEIDDIO

---

MANIFFESTO  
**CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG**  
2002

---

Y GYMRAEG  
YN GOROESI  
GLOBALEIDDIO

MANIFFESTO  
**CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG**  
2002


CYHOEDDWDYD AWST 2002

CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG  
PEN ROC  
RHODFA'R MÔR  
ABERYSTWYTH  
CEREDIGION  
SY23 2AZ

01970 624501  
SWYDDFA@CYMDEITHAS.COM  
WWW.CYMDEITHAS.COM

RHAGYMARRODD

# Y Gymraeg yn goroesi globaleiddio

 Wrth gyhoeddi ei maniffesto newydd yn 2002 mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn gosod gerbron bobl Cymru weledigaeth radical. Dyma ddatganiad cynhwysfawr o'r camau hynny y credwn y bydd angen eu cymryd os ydym o ddifrif am greu dyfodol llewyrchus i'n hiaith a'n cymunedau.

Heb os, mae'r maniffesto yn wrthodiad pellach o gonsensws dylanwadol y nawdegau a fu'n honni bod yr iaith yn ddiogel a bod dim diben protestio mwyach. Datganwn yn glir fod y frwydr yn parhau, a'n gobaith yw y bydd cynnwys y ddogfen hon yn sail i gyfnod arall o ymgyrchu egniol o blaid y Gymraeg.

Mae ein brwydr yn un sydd wedi symud ymlaen o'r hyn ydoedd nôl ym 1992. Bellach, rhaid ei dehongli o fewn cyd-destyn byd-eang. Cred Cymdeithas yr Iaith fod tranc ein hiaith a'n cymunedau yn amlygiad lleol o ffenomenon rhyngwladol. Ar draws y byd gwelir grymoedd cyfalafol yn disodli neu'n tanseilio cymunedau brodorol, gan ddinistrio eu diwyllianau a'u hamgylchedd naturiol. Felly, dadl ganolog Cymdeithas yr Iaith yn y maniffesto hwn yw mai'r duedd bresennol o globaleiddio, sydd yn rhoi pwyslais ar ganoli grym, yw'r prif fygythiad i ddyfodol ein hiaith a'n diwylliant. Dyma gred sydd wedi codi yn uniongyrchol o'n hymgyrchoedd. Dro ar ol tro, wrth ymgyrchu dros fesurau ym maes tai, cynllunio a statws, gwelsom gwmnïau a sefydliadau yn symud i ffwrdd oddi wrth y Gymraeg a'r cymunedau hynny sydd yn sail iddi.

Dyma yw realiti ein bywyd presennol. Rhaid i ni gydnabod hynny a rhaid mynd ati i bwysleisio'r ffaith i eraill. Mae'r grymoedd hyn ar waith yn awr ac felly nid oes unrhyw fudd mewn cuddio rhagdynt a chodi muriau o'n cwmpas. Yn hytrach galwn ar i bobl Cymru dderbyn bod rhain yn rymoedd y gallwn eu herio ac iddynt ymuno yn ein brwydr gyffrous – dyma her fawr y maniffesto hwn.

Tra bod anghyfiawnder i'w weld ar draws y byd a thra bo diwyllianau o bob math yn diflannu, glynwn yn gryf at yr angen i ddechrau wrth ein traed. O ganlyniad, prif ffocws ein holl bolisiau ac ymgyrchu yw'r angen i bwysleisio'r amodau hynny a fydd yn sicrhau dyfodol i'r Gymraeg a chymunedau Cymru. Trwy wneud hynny, gallwn gyfrannu at yr ymgyrch ehangach dros gyfiawnder cymdeithasol, gan fod ymgyrchu o blaid yr iaith hefyd yn golygu ymgyrchu dros yr hawl i reoli ein dyfodol.

Ar yr un pryd, pwysleisiwn barodrwydd parhaol Cymdeithas yr Iaith i gyd-weithio gyda mudiadau radical eraill sydd yn rhannu ein gweledigaeth ac yn awyddus i weld newid. Sylweddolwn y bydd yn rhaid wrth newidiadau sylfaenol os ydym am sicrhau dyfodol i'n hiaith a'n cymunedau. Serch hynny, nid ydym mor hy â honni y gwnawn hynny ein hunain. Credwn fod modd sicrhau gwelliannau ystyrlon a phositif o fewn y gyfundrefn bresennol a'i bod yn ddyletswydd arnom i ymgyrchu i'w sicrhau, tra ar yr un pryd yn cyngreirio gydag eraill i sicrhau fod popeth yn newid.

Felly, cyflwynwn y maniffesto hwn i'n haelodau a'n cefnogwyr, gan obeithio y bydd


yn hwb i weithgarwch cyson. Ond, nid maniffesto cyfyngedig i aelodau' Cymdeithas yr Iaith yn unig mo hwn. Cyflwynwn ef hefyd i bobl Cymru yn gyffredinol, gan alw arnynt i ystyried ei gynnwys ac i ymuno yn y frwydr. Yn ogystal, gan ein bod yn gweld adferiad yr iaith mewn cyd-destyn o adferiad cymdeithasol cyffredinol, galwn ar awdurdodau lleol, undebau llafur a grwpiau pwysau eraill i roi sylw difrifol i'n cynigion.

Deffrwch! ☪

Huw Lewis  
Cadeirydd  
Cymdeithas yr Iaith  
Gorffennaf 2002

DATGANIAD CYCHWYNOL

# Cymdeithas weithredol

 Pwrpas y datganiad cychwynol hwn yw mynegi'r gwerthoedd hynny sydd yn sylfaenol i athroniaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fel mudiad gwleidyddol. Dyma'r gwerthoedd sydd yn sail i'r holl bolisiau a amlinellir yng ngwahanol adrannau'r maniffesto, a chredwn eu bod yn werthoedd sydd yn cyfleu gweledigaeth eangfrydig ac aeddfed.

Bydd pob adran o'r maniffesto yn cynnwys:

1. ein dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol
2. ein gweledigaeth go-gyfer â'r dyfodol
3. y camau y bwriadwn eu cymryd er mwyn cyrraedd y nôd

Mae dilyn trefn debyg i'r uchod yn hollbwysig. Fel y pwysleisiwyd droeon, mudiad gweithredol yw Cymdeithas yr Iaith, sydd yn gosod targedi realistig ar gyfer yr iaith Gymraeg ac ar gyfer ei gweithgarwch hi ei hunan. Nid ymarfer academaidd mo brwydr yr iaith a chredwn nad yw meddu ar bolisiau soffistigedig werth rhyw lawer os na ellir hefyd adeiladu ymgyrchoedd egniol o'u plaid. O ganlyniad caiff y maniffesto hwn ei baratoi fel rhaglen ar gyfer cyfnod o weithredu cadarnhaol.

Nid yw Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sydd wedi dewis glynu'n ddogmataidd o'r cychwyn cyntaf at syniadaeth benodol. Yn hytrach, credwn mai addysg barhaus yw'r profiad o ymgyrchu ac felly cynyrch y profiad hwn yw ein polisiau. Cychwynwn ein hymgyrchoedd o gyfeiriad cyffredinol. Yna trwy'r ymgyrchu, down yn fwy ymwybodol o wir natur y problemau a wynebwn. Golyga hyn y gallwn ail-ystyried ac addasu ein

tactegau neu'n polisiau fel y bo'r angen. Dyma un o brif sylfeini ein hathroniaeth ac mae'n broses sydd yn parhau o hyd. O ganlyniad bydd y maniffesto hwn yn amlinellu'r modd gorau – cyn belled ag y gwelwn ef ar hyn o bryd – i amddiffyn ac i ddatblygu ein hiaith a'n cymunedau.

Mae datblygu polisiau yn y fath fodd yn gyson gyda'n syniadau di-drais, gan nad yw'n debygol i ni gwmpo i fagl hunangyfiawn a honni bod gennym yr holl atebion. Wedi'r cyfan, un o brif nodweddion y dull di-drais yw bod disgwyl i ni edrych yn feiriadol, drwy'r amser, ar ein syniadau a'n gweithredoedd ni ein hunain. Golyga hyn fod ein polisiau ynghyd â phob agwedd arall o waith Cymdeithas yr Iaith yn ffrwyth trafod a datblygu parhaus.

## Newidiadau'r 90au

Wrth gwrs bu newidiadau mawr yng ngwleidyddiaeth Cymru ers i ni gyhoeddi ein maniffesto diwethaf ym 1992. Bryd hynny roedd ein gwlad yn wynebu pum mlynedd arall o Lywodraeth Doriaidd. Eto i gyd, erbyn 1997 roedd y Llywodraeth honno wedi cwmpo a Llafur Newydd wedi'i hethol dan arweiniad Tony Blair. Yn bwysicach i Gymru, llwyddwyd i ennill y refferendwm ar ddatganoli, ac ym mis Mai 1999 agorwyd drysau'r Cynulliad Cenedlaethol am y tro cyntaf.

Yn naturiol, roedd Cymdeithas yr Iaith yn croesawu datblygiad o'r fath. Gwelwyd ef fel un o ddigwyddiadau pwysicaf hanes diweddar Cymru. Heb os, er gwaethaf ei wendidau, credwn fod gan y Cynulliad

botensial anferthol o ran datblygu llywodraeth deg a Chymreig ynghyd â hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Yn benodol, credwn fod y corff newydd yn cynnig cyfle arbennig i ni fynd ati i drawsnewid sefyllfa'r Gymraeg a sicrhau dyfodol llewyrchus iddi. (Pwysleiswyd fod Deddf Llywodraeth Cymru, 1998, yn datgan y gall y Cynulliad wneud 'beth bynnag y mae'n ei ystyried yn briodol i gefnogi'r iaith Gymraeg.') O ganlyniad, wedi blynyddoedd o ymgyrchu am gonsensiynau i'r iaith oddi wrth gynrychiolwyr y Llywodraeth Brydeinig yn Llundain ac yng Nghaerdydd daeth y Gymdeithas i weld y Cynulliad fel y prif ffocws go-gyfer â'i hymgyrchoedd.

Serch hynny, pwysleisiwn nad yw'r newid yn lliw y Llywodraeth a dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol yn ei hun yn ddigon i sicrhau dyfodol i'r Gymraeg a chymunedau Cymru. Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae dylanwad y gwerthoedd hynny a wnaeth gymaint o niwed dros y blynyddoedd yn parhau. Yn wir, ymddengys mai ffol yw sôn am gwmp Ceidwadaeth o ystyried sylwedd llawer o bolisiau Llafur Newydd.

## Perthnasedd parhaol ein gwleidyddiaeth gwrth-sefydliadol

Yn sicr, golyga dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol fod angen i Gymdeithas yr Iaith ystyried ei safleoliad, gan fod brwydro yn erbyn y drefn Brydeinig ganolog wedi bod yn rhan annatod o'n hymgyrchoedd. Eto i gyd, law yn llaw â hyn roedd ein hymgyrchu

hefyd yn golygu herio'r grymoedd cyfalafol hynny a arweiniodd at ddinistrio cymaint o gymunedau Cymraeg ac at wthio'r Gymraeg i'r cyrion ym mhob maes. O ganlyniad, rhaid cofio, er gwaetha'r ffaith i Gymru ennill elfen o ryddid gwleidyddol, bod grymoedd strwythurol o'r fath yn parhau yn fygythiad. Yn wir ar ddechrau canrif newydd gwelir hwy yn cyrraedd lefel uwch nas gwelwyd erioed o'r blaen.

Erbyn heddiw, gwelwn benllanw ar ddatblygiad syniadau neo-ryddfrydol y 'dde newydd' a fu ar dwf ers dechrau'r wythdegau. Hanfod gweledigaeth y garfan hon yw'r angen i bwysleisio potensial y farchnad rydd ynghyd ag ymrwymiad i unigolyddiaeth – gweledigaeth a gaiff ei choleddu o fewn y Sefydliad Prydeinig a'r Sefydliad Cymreig. Llwyddwyd i boblogeiddio'r gred dwyllodrus fod ein rhyddid wedi ei glymu i law hudol y farchnad a bod unrhyw wrthwynebiad iddi yn tanseilio'r rhyddid honedig hwnnw. Golyga dylanwad y meddylfryd hwn gyda'i bwyslais ar ddad-reoleiddio a phreifateiddio, fod grym yn prysur symud i ffwrdd o afael llywodraethau democrataidd. Trwy'r nawdegau gwelwyd nifer o wasanaethau cyhoeddus yn cael eu preifateiddio a'u canoli ac o ganlyniad yn colli unrhyw adnabyddiaeth neu atebolrwydd a fu genddyt tuag at y cymunedau hynny a wasanaethant.

Felly, ar draul democratiaeth, rhoddwyd rhwydd hynt i gwmnïau a sefydliadau i fynd ati i bentyrro elw ac i anwybyddu pwysigrwydd gwerthoedd dynol megis iaith, diwylliant, amgylchedd a chymuned. Ar yr un pryd, arweiniodd y pwyslais ar drin pawb fel unigolion a defnyddwyr, yn hytrach nac fel aelodau o gymunedau, at arwahanrwydd ac at unigolion cystadleuol o fewn cymdeithas sydd yn gynyddol amheronol ac ymddieithriol.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn gwrthod yn llwyr weledigaeth o'r fath. Nid oes dyfodol i'r Gymraeg mewn byd sydd yn gweithredu yn ôl rhesymeg y farchnad gan fod iaith leiafrifol o'r fath yn cael ei hystyried fel rhwystr masnachol sydd yn amharu ar ryddid corfforaethol. Yn yr un modd mae'r pwyslais unigolyddol yn niweidiol iawn gan mai ffenomenon gymdeithasol yw iaith yn ei hanfod.

Felly, oherwydd natur anghenion y Gymraeg a chymunedau Cymru mae ein gwleidyddiaeth gwrth-sefydliadol a gwrth-gyfalafol ynghyd â'n dadl sylfaenol dros hawliau cymunedol yn parhau yn

berthnasol. Golyga fod angen i ni gymryd cam pellach a brwydro nid yn unig yn erbyn y Sefydliad Prydeinig yng Nghymru ond hefyd herio'r Sefydliad Cymreig. Nododd maniffesto 1982: 'Nid yw'n ddigon newid iaith na hyd yn oed reolaeth ar yr adeiladwaith yng Nghymru – rhaid newid yr adeiladwaith eu hunain gan nad ydynt yn gwasanaethu anghenion Cymru'n ddiwylliannol nac yn faterol.' Yn sicr, nid yw'r rhan yma o'r frwydr yn hawdd ond mae'n rhan allweddol.

### Chwalu'r myth – mae'r frwydr yn parhau

Trwy'r nawdegau ac i mewn i'r ganrif newydd daeth mwy a mwy yng Nghymru i goleddu'r gred dwyllodrus fod dyfodol y Gymraeg bellach yn ddiogel. Yn raddol datblygodd consensws a oedd o'r farn fod protest, er gwaethaf ei gyfraniad eithriadol o effeithiol i fywyd Cymru, bellach yn perthyn i'r gorffennol ac y gellir yn awr hyrwyddo'r Gymraeg oddi fewn i'r sustem.

O bosib y symudiad peryclaf yn y maes yma yw'r ymgais i dynnu'r Gymraeg allan o wleidyddiaeth – i niwtraleiddio'r Gymraeg. Defnyddir y dadl yma yn aml gan y sefydliad er mwyn cyfiawnhau gwerthoedd afiach. Er engrhaifft yn y saithdegau – 'cadwch wleidyddiaeth allan o chwaraeon' (fel y gallwn fynd i Dde-Affrica i chwarae rygbi ac I gydnabod y drefn Apartheid). Yn ddiweddar – 'peidiwch â chymysgu gwleidyddiaeth a diwylliant a pheidiwch ymgyrchu ar faes yr Eisteddfod' (fel nad yw'r sefydliad a chorfforaethau yn cael eu cythruddo ac y bygwth dileu eu cefnogaeth ariannol). Trwy barhau gyda'n safiad gwrth-sefydliadol a gwrth-gyfalafol nod Cymdeithas yr Iaith yw ymladd yn erbyn y pydredd mewnol, gan greu hinsawdd gwleidyddol mwy beirniadol a gwyladwrus.

Rhybuddiwyd yn gryf rhag datblygiad o'r fath yn ein maniffesto diwethaf ym 1992, ac yn y flwyddyn 2002 mae Cymdeithas yr Iaith yn datgan yn glir os y gorffwyswn yn awr yna fe fydd popeth a enillwyd yn cael ei ffosaleiddio yn y gorffennol. Mae'r iaith yn colli tir yn gyflym a rhaid i ni weithredu yn fuan. Ni wnaeth ymgyrchoedd y degawdau diwethaf ond sicrhau na fyddai'r Gymraeg yn iaith farw erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif. Yn awr, rhaid i ni ddeffro i frwydr newydd!

Wrth gwrs, cydnabyddwn yr ewyllys da sydd bellach yn bodoli tuag at y Gymraeg.

Serch hynny, pwysleisiwn nad yw ewyllys da yn ei hun yn ddigon i sicrhau dyfodol i'n haith a'n cymunedau. Rhaid datblygu yr ewyllys wleidyddol i weithredu a rhaid i ni ein hunain ganfod yr ewyllys i frwydro.

Yn groes i'r consensws ieithyddol ceidwadol mae statws y Gymraeg ym mhob maes wedi dirywio dros y degawd diwethaf. Ystyrier Deddf Iaith, 1993 sydd yn gynnyrch oes pan oedd y sector gyhoeddus yn ben. Mae deddf o'r fath yn amherthnasol mewn cyfnod lle caiff gwasanaethau newydd a datblygiadau technolegol eu cynnig yn uniaith Saesneg gan gwmnïau preifat. Mae cymunedau Cymru hefyd o dan fwy o bwysau nag erioed. Erbyn heddiw mae trwch yr asiantaethau sy'n ymwneud â thir, tai a busnesau bach wedi eu canoli a'u rheoli o Loegr. Ychwaneger at hyn yr argyfwng presennol ym myd amaeth. Hyd yn oed ym maes addysg yr ydym wedi colli tir. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf fe breifateiddiwyd y Colegau Addysg Bellach ac mae'r Byrddau Hyfforddi yn gweithredu mwy neu lai drwy'r Saesneg yn unig. Felly dro ar ôl tro gwelwn fod asiantaethau a sefydliadau wedi camu i ffwrdd o'r Gymraeg a'r cymunedau hynny sydd yn sylfaen iddi. Bydd sefyllfa o'r fath ond yn arwain at ddyfodol lle caiff y Gymraeg ei gwthio fwy a mwy i'r cyrion a'i rhwystro rhag dod i chwarae rhan ganolog ym mhob agwedd o'n bywydau dyddiol. Creir sefyllfa lle bydd cenedlaethau'r dyfodol ond yn brwydro am gonsensiynau cyfyng gerbron sefydliadau a chyrrff preifat canoledig.

Gwrthodwn ddyfodol cul o'r fath i'r Gymraeg. Yn hytrach mae Cymdeithas yr Iaith o blaid newidiadau sylfaenol a phellgyrhaeddol fydd yn golygu fod y Gymraeg yn parhau yn eiddo i gymunedau cyfan. Ein dadl ni yw fod yr holl drefn yr ydym yn byw ynndi yn milwrio yn erbyn yr iaith a chymunedau Cymru. Felly datganwn eto: os yw'r Gymraeg i fyw, rhaid i bopeth arall ym mywyd Cymru newid'.

### Gweledigaeth amgen Cymdeithas yr Iaith – Rhyddid Cymunedol

Mae Cymdeithas yr Iaith o blaid creu trefn fydd yn rhyddhau cymunedau Cymreig fel y gallant greu eu dyfodol eu hunain. Trefn lle gall yr iaith Gymraeg chwarae rhan naturiol. O ganlyniad, credwn mai diogelu bywyd cymunedol ddylai fod un o brif amcanion polisiâu cynllunio, tai ac economaidd, ac mai dim ond mewn trefn o'r

fath y bydd byw'r Gymraeg.

Eto i gyd, yn y pendraw nid yw hyn yn fater o bolisiau economaidd, tai neu gynllunio, ond yn hytrach yn fater o ddyrchafu anghenion pobl a chymunedau uwchlaw anghenion marchnadol. Mewn gwirionedd, byddai cymryd cam o'r fath o fantais i bawb yng Nghymru, boed ni'n siarad Cymraeg ai peidio

Datganwyd hyn am y tro cyntaf ym 1992 wrth i ni sylweddoli bod brwydro dros yr iaith Gymraeg o'i hanfod yn cyfrannu at gynnal bywyd cymunedol ledled Cymru. Bryd hynny, dehonglwyd y sefyllfa yn bennaf o fewn cyd-destyn Cymreig a Phrydeinig, gan y deuai'r her o gyfeiriad yr holl bolisiau Thatcheriaidd a fagodd eu gwreiddiau yn ystod yr 80au. Serch hynny yn 2002, yn sgil twf grymoedd globaleiddio mae Cymdeithas yr Iaith yn medru dadansoddi'r sefyllfa bresennol yng Nghymru fel rhan o fwydr byd-eang.

Yng Nghymru, fel mewn gwledydd eraill, rhaid i ni benderfynu os ydym am ganiatau i'r drefn economaidd a chymdeithasol bresennol chwalu ein diwylliant a'n cymunedau ynghyd â'r holl gysyniad o werthoedd dynol.

O fewn cyd-destun o'r fath, cred Cymdeithas yr Iaith fod y cysyniad o Gymunedau Rhydd yn cynnig gwrth-weledigaeth gyffrous i'r darlun cul ac un-llygeidiog a gaiff ei gynnal gan y drefn bresennol. Yn wir, yn yr oes fodern lle rhoddir pwyslais parhaol ar hyblygrwydd a symudoledd ac ar drin pawb fel unigolion di-wahan, credwn ei bod hi'n bwysicach nag erioed i ddatgan gwerth cymunedau rhydd. Pwysleisiwn eto, fod unigolion rhydd ond i'w cael mewn cymunedau rhydd, gan mai'r cymundeb hwn sydd yn rhyddhau ein potensial ac sydd yn sail i'n diwylliant.

Wrth gwrs, cydnabyddwn fod newidiadau yn anochel a bod angen i gymunedau addasu i gyfnodau newydd. Serch hynny, dylai fod gan aelodau'r cymunedau hyn y grym a'r rhyddid i fedru dygymod gyda newidiadau ar eu telerau eu hunain, heb i ffactorau danseilio eu hiaith, eu diwylliant a'u hamgylchedd.

Nid at bentrefi a chymunedau gwledig yn unig y cyfeiriwn atynt. Credwn fod ein gweledigaeth gymunedol nid yn unig yn berthnasol i ardaloedd gwledig ond hefyd i drefi bach a mawr. Credwn fod creu cymunedau rhydd yn fodd o sicrhau safon byw gwell i bobl Cymru lle bynnag y bont yn byw.

Pwysleisiwn mai nid rhamantu am

gymunedau'r gorffennol yr ydym, ac nad ydym chwaith am osod mur o amgylch ein cymunedau. Rhaid i ni gydnabod, er gwaethaf elfennau iach, fod cymunedau cryfion o'r gorffennol hefyd wedi cynnal tueddiadau adweithiol o bob math, er engrhaifft rhaniadau dosbarth, camwahaniaethu rhywiol a homoffobia. Felly, nid ail-greu'r glendid a fu yw'r nôd, ond ar yr un pryd nid ydym am weld ein cymunedau yn cael eu chwalu er cyfleustra gweinyddol. Yn hytrach, rhaid codi i lefel uwch gan ddefnyddio'r adnoddau real sydd gennym i ddatblygu ein cymunedau i fod yn gryf, yn hyderus, yn eangfrydig ac yn oddefgar; cymunedau lle caiff gwerthoedd eu sefydlu trwy ddadlau a chyd-drafod, nid trwy ofrodaeth. Cymunedau lle bydd yr iaith Gymraeg yn ffynnu.

Bydd y gwahanol bolisiau a amlinellir yng nghorff y maniffesto yn dangos sut y gallwn gamu yn agosach at y nôd hwn. ♻

DULLIAU O WEITHREDU

# Mudiad di-drais

**P**wysleiswn fod Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sydd ond yn defnyddio dulliau di-drais o weithredu. Dros y blynyddoedd, bu ymddygiad disgybledig aelodau mewn gwahanol brotestiadau yn brawf o ymrwymiad difrifol y mudiad i'r dull heddychlun o ymgyrchu. Mae hyn yn hollbwysig gan ein bod o'r farn fod angen i'n dulliau adlewyrchu cyfiawnder ein hachos. Credwn nad oes unrhyw gyfiawnhad dros ddefnyddio trais, gan y byddai hynny ond yn arwain Cymru i gul-de-sac ofnus a chwerw, lle byddai gwir nôd y frwydr yn mynd yn anghof. Cofiw'n eiriau Martin Luther King a ddyfynwyd ym maniffesto 1972: 'Rhaid i ni weithredu nid trwy ddibynnu'n oddefol ar berswâd, nac ychwaith trwy ymollwng i wrthryfel treisiol, ond trwy synthesis uwch sy'n cymodi gwirioneddau'r ddau wrthgyferbyniol hyn, tra'n osgoi yr hyn sy'n annigonol ac yn aneffeithiol yn y ddau.'

Eto i gyd, mae llawer mwy i'r dull di-drais na dim ond cymryd y cam syml o ymatal rhag defnyddio trais. Mae'n ddull sydd hefyd yn galw arnom i feddwl mewn ffordd wahanol.

Rhaid i ymgyrchoedd di-drais fod yn rhai cadarnhaol sydd wedi eu selio ar bolisiau neu anghenion penodol. O ganlyniad bydd bob amser nôd pendant i ymgyrchu Cymdeithas yr Iaith. Yn wir, mae meddylfryd o'r fath yn hollbwysig i'r mudiad gan ei fod yn golygu nad yw ein hymgyrchoedd yn cael eu gyrru gan rwystredigaeth.

Yn ogystal, yn hytrach na beio eraill mewn ysbryd o rwystredigaeth, mae'r dull di-drais yn dangos mai ar ein hysgwyddau ni

ein hunain y gorwedda'r cyfrifoldeb o newid y sefyllfa. Dadl Cymdeithas yr Iaith yw po fwy'r ymwybyddiaeth; mwya'r cyfrifoldeb, ac felly ni ddylai neb gwympto i'r fagl hunangyfiawn o gredu ei fod yn gwneud digon. Yn hytrach, mae disgwyl i ni edrych yn feirniadol, drwy'r amser, ar ein gweithredoedd a'n blaenoriaethau ni ein hunain.

O ganlyniad gwelir bod oblygiadau eang iawn i'r dull di-drais.

## Adlewyrchu difrifoldeb y sefyllfa

Yn ogystal ag adlewyrchu cyfiawnder ein hachos mae angen i'n dulliau adlewyrchu difrifoldeb y sefyllfa. Os ydym yn argyhoeddiedig fod ffactorau penodol yn arbennig o niweidiol i ragolygon y Gymraeg, nid yw'n ddigon dim ond i ddatgan hynny, mae'n hollbwysig fod difrifoldeb ein hymgyrch yn pwysleisio'r niwed difrifol a wneir. Golyga hyn fod yn barod i herio'r sistem gyfreithiol sydd yn cynnal y drefn niweidiol bresennol, ond golyga hefyd fanylu ar ein gofynion a'n polisiau er mwyn cynyddu'r pwysau i lefel na all cyrrff na sefydliadau perthnasol eu hanwybyddu.

Wrth ddefnyddio dulliau o 'weithredu yn uniongyrchol' ein gobaith yw ein bod yn gweithredu mewn modd a fydd yn cyfrannu yn uniongyrchol tuag at newid y drefn bresennol.

Byddai rhai yn dadlau fod torri'r gyfraith gan ddifrodi eiddo yn weithred dreisgar. Serch hynny, barn Cymdeithas yr Iaith yw bod gweithredu o'r fath mewn modd cyfrifol, yn fodd o ddileu trais. Hynny yw,

nôd ein gweithredoedd uniongyrchol yw tansellio'r drefn bresennol sydd yn treisio'r Gymraeg a chymunedau Cymru. Mae difrodi eiddo yn gyson gyda'r ddadl, gan y gall yr union eiddo hwnnw fod yn gyfrwng i'r trais.

## Derbyn cyfrifoldeb

Ers y cychwyn, mae Cymdeithas yr Iaith wedi rhoi pwyslais mawr ar yr egwyddor o dderbyn cyfrifoldeb. Un o brif hanfodion gweithgarwch uniongyrchol di-drais cadarnhaol yw bod y sawl sydd yn ymgymryd ag ef yn derbyn cyfrifoldeb llawn – boed fel unigolyn neu fel grŵp – am eu gweithredoedd. Golyga hyn bod disgwyl i ni fod yn barod i dderbyn y gosb a weithredir gan y sefydliad. O ganlyniad gellir sicrhau mai dim ond gweithredoedd cyfrifol di-drais a gyflawnir yn enw Cymdeithas yr Iaith gan mai ni fel aelodau sydd yn cario'r prif faich.

## Cyfiawnder parhaol gweithredu uniongyrchol di-drais.

Yn sgil sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol mae llawer wedi dadlau nad oes lle bellach i weithredu uniongyrchol di-drais. Gwrthod y ddadl yma y gwna Cymdeithas yr Iaith gan lynnu at gyfiawnder y dull hwnnw o ymgyrchu.

Yn y lle cyntaf, nid oedd yr egwyddor o weithredu uniongyrchol di-drais erioed wedi ei seilio ar ddiffyg hunanlywodraeth Gymreig, er bod hynny yn sicr o ychwanegu at yr angen am ddefnyddio dulliau o'r fath. Yn y pendraw roedd sail tipyn mwy

cyffredinol i'r gred yng nghyfiawnder y dulliau yma o weithredu – deilliai o natur gyfyng ein democratiaeth.

Nid yw Cymru yn meddu ar ddemocratiaeth gyflawn. Gan hynny, dim ond un agwedd o broblem eang oedd rheolaeth o Loegr. Wrth gwrs, mae allanolion democratiaeth gennym yng Nghymru, o ran yr hawl i bleidleisio a'r rhyddid i fynegi barn. Eto i gyd, dadl Cymdeithas yr Iaith yw bod llawer mwy i ddemocratiaeth na dim ond y nodweddion cul a 'llywodraethol' traddodiadol.

Rhaid i ni adeiladu democratiaeth ystyrllon a chyfranogol yng Nghymru. Golyga hyn greu trefn addysg sydd yn rhannu gwybodaeth yn deg ac yn dysgu pobl i weithredu ar ei sail, gan ddefnyddio eu dylanwad i'r eithaf. Golyga ein bod yn creu cyfryngau agored, ynghyd â chydaddoldeb economaidd er mwyn sicrhau bod gan bawb yr adnoddau a'r cyfle ymarferol i fynegi barn. Yn ogystal, rhaid hyrwyddo democratiaeth o fewn diwydiant ac edrych tuag at ddatganoli grym gwleidyddol i gymunedau lleol, er mwyn sicrhau bod gwahanol grwpiau yn medru dylanwadu ar y sefyllfa.

Ar hyn o bryd, yr hyn a geir yng Nghymru yw cyfran o ddemocratiaeth llywodraethol wedi'i seilio ar gefndir cymdeithasol ac economaidd hynod o annemocrataidd. Canlyniad hyn yw creu democratiaeth fas, sydd yn cyfyngu trafodaeth i gylchoedd cyfyng y dosbarth gwleidyddol. Golyga cyddestyn o'r fath bod modd creu consensws gwleidyddol cyfforddus ar faterion pwysig, gan gau allan safbwyntiau a ystyrir yn anghyfleus.

Gwelwyd hyn ar waith yn ystod Streic y Glowyr ym 1984, wrth i holl rym y sefydliad a'r cyfryngau gyflwyno un safbwynt yn unig. Yn yr un modd, yn ystod y 90au gwelwyd y sefydliad Cymreig yn ymgeisio i dynnu'r Gymraeg allan o faes gwleidyddiaeth. Roedd cam o'r fath yn niweidio trafodaeth ddemocrataidd, gan ei fod yn creu consensws cyfforddus nad oedd yn barod i ystyried safbwyntiau mwy radical.

Mewn amgylchiadau o'r fath dadl Cymdeithas yr Iaith yw ei bod hi'n gyfiawn ac o gymorth i achos democratiaeth i gymryd camau uniongyrchol di-drais. Nid yw hynny yn golygu ein bod â'n bryd ar orfodi ein safbwynt ar eraill mewn modd annemocrataidd – nid oes gennym y grym na'r awydd i wneud hynny. Ond, trwy weithredu yn agored a derbyn y canlyniadau gallwn bwysleisio difrifoldeb y sefyllfa

bresennol, gan gadw'r pwnc ar yr agenda a gorfodi trafodaeth ddemocrataidd.

Ni ddylai neb deimlo dan fygythiad gan weithgarwch o'r fath, ond dylai eu safbwyntiau gael eu herio. Nid bygwth ond herio yw ein nôd! ☪



CYMUNEDAU RHYDD

# Cynllunio'r dyfodol

**T**rwy gyfrwng y broses gynllunio mae pobl yn gallu mynegi eu gwledigaeth o ddyfodol eu cymunedau. O ganlyniad, gwelodd Cymdeithas yr Iaith fod yn rhaid sicrhau lle canolog i anghenion y Gymraeg yn y maes hwn, gan fod modd i'r gyfundrefn gynllunio ganiatau datblygiadau a allai fod yn niweidiol iawn. Pwysleiswyd hyn gan ddiffyg ymwybyddiaeth swyddogion cynllunio y llywodraeth a ddadleuai drwy chwedegau a saithdegau'r ganrif ddiwethaf fod cynllunio yn ymwneud â defnydd tir yn unig. Golygai hyn fod rhwydd hynt i rymoedd y farchnad i ecsplotio cymunedau Cymru trwy gyfrwng datblygiadau hapfasnachol a fwriadwyd ar gyfer, mewn fudwyr, cymundwyr a phobl wedi ymdeol.

## Cefndir

Erbyn diwedd y saithdegau bu cydnabyddiaeth ymhlith cynllunwyr o'r angen i ystyried effaith amgylcheddol gwahanol ddatblygiadau. Dadleuodd Cymdeithas yr Iaith fod angen ystyried yr amgylchedd ieithyddol a chymdeithasol hefyd ac felly yn ystod yr wythdegau dechreuwyd ymgyrchu yn y maes trwy alw am Statws Cynllunio i'r Gymraeg. Erbyn canol yr wythdegau, penderfynodd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru – Cyngor Glyndŵr – i nodi yr angen i ddiogelu cymunedau lleol fel un o amcanion ei strategaeth cynllunio. Mae'n ddiddorol mai mewn ardal ddwyieithog y cafwyd y symudiad cyntaf yn y maes, gan bwysleisio mai sicrhau dyfodol i fywyd cymunedol yw'r

## Deddf Eiddo

Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am Ddeddf Eiddo i Gymru. Dyma bolisi a gyhoeddwyd am y tro cyntaf ar ddiwedd yr 80au ac a ddiweddarwyd ar ddiwedd y 90au i gydfynd â sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol. Erys fel yr unig bolisi cynhwysfawr yn y maes ac felly mynwn fod ei gynnwys yn derbyn sylw difrifol.

Seilir Deddf Eiddo ar y nôd driphlyg o:

- ☛ sicrhau bod anghenion tai pobl Cymru yn cael eu diwallu
- ☛ ddiogelu a sicrhau cynladwyedd cymunedau Cymru, a'r iaith Gymraeg
- ☛ ddiogelu'r amgylchedd

Ymhellach caiff y polisi ei seilio ar rai egwyddorion penodol, sef:

- ☛ y dylid ystyried tai ac eiddo fel angen yn hytrach na nwydd masnachol
- ☛ y dylid sicrhau bod pobl leol yn cael mynediad i'r stoc bresennol o dai ac eiddo
- ☛ y dyai prisiau tai ac eiddo adlewyrchu'r farchnad leol

nod yn y pendraw. Nid yw'r gwerth yn gyfyngedig i gymunedau Cymraeg, ond bod argyfwng arbennig yn y cymunedau hyn ac y gall adferiad yr iaith mewn cymunedau eraill fod yn rhan o adferiad cymunedol ehangach.

Ym 1988, enillwyd y gydnabyddiaeth gyntaf gan y llywodraeth o'r angen i ystyried anghenion y Gymraeg. Trwy gyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol dangoswyd bod modd i'r effaith ar yr iaith Gymraeg fod yn ystyriaeth gynllunio ddilys mewn rhai amgylchiadau. Eto i gyd, ers cyhoeddi'r nodyn hwn, prin fu'r defnydd o statws cynllunio i'r Gymraeg gan ein hawdurdodau lleol. Yn wir, roedd y nodyn ei hun mor wan nes bod cynghorau yn go ansicr ynglŷn â sut i'w ddefnyddio. Bu'n rhaid aros hyd nes y nawdegau cyn cael nodyn mwy pwrpasol.

Yn y pendraw, gwel Cymdeithas yr Iaith fod pob rhan o'r broses gynllunio yn effeithio ar ddyfodol ein hiaith a'n cymunedau ac felly bod yn rhaid wrth gynllunio cymunedol hollistaidd. Gwelwn broses gymleth o achos ac effaith ar waith. Caiff y stoc presennol o dai ei feddiannu gan fewnfudwyr, yn rhannol oherwydd eu gallu pwr casu uwch. Eto i gyd, deillia hefyd o ganlyniad i'r gwagle sy'n bodoli yn dilyn allfudiad o Gymru ifanc o'u cymunedau yn sgil diffygion o ran polisiau economaidd, tai, trafndiaeth ac hefyd o ran cyfleusterau cymdeithasol. Ar yr un pryd, mae'r diffygion polisi hyn yn golygu fod prinder plant i gynnal ysgolion nifer o gymunedau ac felly caiff yr ysgolion hyn, yn eu tro, eu colli fel asedau a allai gyfrannu at adfywio'r cymunedau hynny. Mae ein hawdurdodau

lleol yn tueddu i drin pob un o'r materion hyn mewn modd adweithiol neu negyddol gan nad ydynt yn trin yr angen i ddiogelu ein cymunedau fel congfaen i'r holl broses gynllunio.

O fewn y broses gynllunio, mae'n siwr mai'r polisiau tai presennol sydd yn cael yr effaith fwyaf ar ragolygon ein cymunedau. Ers y saithdegau bu Cymdeithas yr Iaith yn dadlau bod angen i'r polisiau fod yn seiliedig ar ddarparu cartrefi i deuluoedd yn ôl yr angen lleol yn hytrach na hybu buddiannau sy'n ystyried tai fel asedau masnachol. Cafwyd llwyddiannau yn yr ymgyrch i reoli tai haf trwy sicrhau fod trethi lleol yn cael eu talu arnynt gyda phwysau cynyddol i godi lefel y dreth honno ac i gyfyngu ar eu nifer trwy gyfrwng y broses gynllunio. Fel rhan o'r un strategaeth, rydym yn ymgyrchu dros sicrhau tai ar rent er mwyn cynorthwyo pobl lleol i gael mynediad i'r farchnad dai ac er mwyn atal datblygiadau hapfasnachol nad ydynt yn seiliedig ar anghenion lleol.

Erbyn dechrau'r nawdegau fodd bynnag, cydnabyddwyd nad yw rhai datblygiadau o'r fath mewn polisiau tai – er yn werthfawr – yn mynd i'r afael â gwraidd y broblem, sef gweithrediad y farchnad breifat mewn tai ac eiddo. Dyma arweiniodd at ymgyrchu Cymdeithas yr Iaith dros Ddeddf Eiddo i roi i gymunedau lleol elfen o reolaeth ar y farchnad eiddo. Oherwydd gwendid economaidd ein cymunedau lleol, mae marchnad agored ddi-lyffethair yn sicr o ffafrio buddiannau allanol sy'n golygu fod ein cymunedau yn colli rheolaeth a pherchnogaeth o'u heiddo. Bydd hyn yn anochel o arwain at drawsnewidiad ieithyddol a chymdeithasol. Yn y tymor hir gall ein cymunedau gael eu cryfhau trwy gynllunio holistaidd pwrpasol, eto i gyd mae angen gweithredu brys trwy Ddeddf Eiddo er mwyn atal chwalfa llwyr. Rydym wedi llwyddo'n rhannol i ddarbwyllo'r Cynulliad ac awdurdodau lleol i gymryd rhai camau a fydd yn gwella'r sefyllfa ar yr ymylon, ond mae'r alwad am Ddeddf Eiddo i reoli'r farchnad yn parhau i fod yn gwbl groes i ethos yr holl brif bleidiau gwleidyddol. Serch hynny, o wrthod delio gyda'r pwnc gwleidyddol sensitif am ddegawd arall, ni fydd unrhyw gymunedau Cymraeg hyfyw ar ôl.

## Her y ganrif newydd

Yn y maes hwn fe welir y gwrthdrawiad o ran gwerthoedd sydd rhwng maniffesto Cymdeithas yr Iaith a'r drefn sydd ohoni.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, fe nodir chwech o bwntiau y dylid eu cynnwys:

### 1. Asesu'r angen lleol

Dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud ymchwil manwl a pharhaol i'r angen lleol am gartrefi ac eiddo (ynghyd ag anghenion cymdeithasol eraill) ym mhob cymuned. Yna dylai fod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i lunio strategaeth i ddiwallu'r anghenion hynny oddi fewn i'r stoc bresennol o dai ac eiddo, oni bai bod honno'n annigonol neu'n anaddas.

### 2. Tai ac eiddo i'w rhentu

Dylid rhoi'r hawl i bobl lleol gael cartref, neu fferm neu eiddo busnes ar rent rhesymol ac mewn cyflwr boddhaol. Ymbellach dylid rhoi dyletswydd statudol ar yr awdurdodau lleol i sicrhau'r ddarpariaeth hon a hynny o'r stoc bresennol oni bai ei fod yn anaddas (gan adnewyddu ac addasu'r stoc yn ôl yr angen).

### 3. Cymorth i brynwyr tro-cyntaf

Dylai pob person lleol sydd yn dymuno prynu cartref am y tro cyntaf gael cymorth i wneud hynny. Gan fod prisiau tai y tu hwnt i'r rhan fwyaf o brynwyr tro-cyntaf lleol ar hyn o bryd, ac am y bydd y sefyllfa hon yn parhau am beth amser ar ôl i Ddeddf Eiddo ddod i rym, mae'n hanfodol i sicrhau cymorth i brynwyr tro-cyntaf fel y gallant gael mynediad i'r farchnad.

### 4. Blaenoriaeth i bobl lleol

Dylid rhoi blaenoriaeth i bobl lleol yn y farchnad dai, gan sicrhau bod tai ac eiddo yn cael eu cynnig i bobl sydd yn byw yn y gymuned cyn mynd allan ar y farchnad agored.

### 5. Cynllunio i'r gymuned

Dylai'r drefn gynllunio wasanaethu buddianau ac anghenion y gymuned leol: dylai tai newydd ddiwallu anghenion lleol na ellir eu diwallu o'r stoc dai bresennol, ac ni ddylid rhoi caniatad i gynlluniau a fyddai'n niweidiol i'r gymuned, yr iaith Gymraeg neu'r amgylchedd.

### 6. Ailasesu caniatad cynllunio

Dylid sicrhau na fydd caniatad cynllunio a roddwyd yn y gorffennol yn ychwanegu'n ddiangen at y stoc dai, nac yn bygwth ac yn tansellio cymunedau, y Gymraeg na'r amgylchedd.

Tra bod y drefn bresennol yn pwysleisio hawliau unigolion o fewn y farchnad – ac yn arbennig yr unigolion cyfoethocaf a'r corfforaethau cryfaf – mae Cymdeithas yr Iaith yn pwysleisio hawl ddemocrataidd cymunedau i reoli eu dyfodol eu hunain a bod unigolion rhydd i'w canfod mewn cymuned gyda'i gilydd yn hytrach na mewn cystadleuaeth. Dyma fu thema ein maniffesto diwethaf – 'Cymunedau Rhydd nid Marchnad Rydd'.

Bryd hynny, dehonglwyd y sefyllfa o fewn cyd-destyn gwleidyddol Cymreig a Phrydeinig. Bu ymgyrchu yn erbyn arwerthwyr unigol a geisiau elw o'r farchnad trwy anelu eu gwerthiant yn fwriadol at fuddiannau allanol er mwyn chwyddo eu helw. Cyfeiriwyd hefyd at effaith niweidiol rhai o bolisiau llywodraeth Llundain, gan gynnwys y modd y gorfodwyd awdurdodau lleol i werthu tai cyngor. Erbyn hyn fodd bynnag, rhaid i ni ddehongli'r cyfan mewn cyd-destun ehangach yn wyneb y broses bresennol o globaleiddio. Bellach, nid trwy ambell i hysbyseb neu daflen mewn ardal wyliau y mae arwerthwyr yn gwerthu stoc dai ein cymunedau i fuddiannau allanol, ond trwy ddulliau megis sefydlu'r wefan [www.movetowales.com](http://www.movetowales.com), y gellir ei chyrraedd o unrhyw le. Yn y cyd-destyn canolog newydd hwn, mae'n cymunedau lleol wedi colli pob rheolaeth ar eu stoc tai a'u gwasanaethau lleol ac yn agored i fewnlifiad mawr arall. Hybir hyn gan y ffaith fod prisiau tai wedi codi yn aruthrol yn ddiweddar heb fod mewn perthynas â chyflogau pobl Cymru. Yn ogystal, trwy restrau canolog y gwerthir tai, trwy asiantaethau y rhentir tai'n breifat ac mae hyd yn oed y rhestrau aros am dai cyngor ar adegau yn rhoi blaenoriaeth i bobl o ardaloedd eraill.

Er mwyn sicrhau dyfodol i'r Gymraeg, mae'n rhaid wrth gamau pendant ac felly cynigiwn yma gyfres o fesurau. Pwysleisir yr angen difrifol am Ddeddf Eiddo i Gymru ond ar yr un pryd amlinellir rhai camau brys y call y Cynulliad eu cymryd nawr.

## Hawliau a rhyddid –

### ateb rhai cyhuddiadau

Yn groes i rai cyhuddiadau, dadleua Cymdeithas yr Iaith y byddai'r mesur o reolaeth ar y farchnad a geir trwy gyfrwng Ddeddf Eiddo yn cynyddu ein rhyddid a'n hawliau, gan sicrhau:

☛ marchnad rydd i bawb, nid marchnad

- sydd yn 'rhydd' i'r cyfoethog yn unig
- ☛ rhyddid i bawb gael cartref yn eu cymuned
- ☛ yr hawl i brynu neu rentu am bris teg
- ☛ yr hawl i werthu eiddo i berson lleol, heb golled
- ☛ hawl cymunedau i gadw eu hunaniaeth, eu hiaith a'u pobl (yn enwedig eu pobl ifanc)
- ☛ rhyddid i fyw mewn cymuned Gymreig neu Gymraeg

## Cyflawni Deddf Eiddo

Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad y gallu i lunio a gweithredu cryn dipyn o bolisiau penodol a chadarnhaol ar draws maes tai a chynllunio. Serch hynny, mae rhai rhannau o ofynion Deddf Eiddo y tu hwnt i rymoedd presennol y Cynulliad ac o ganlyniad disgwyliwn iddo bwysu yn galed ar Senedd San Steffan am ddeddfwriaeth gynradd ar y mater. Bydd ymgyrchu Cymdeithas yr Iaith yn dwysau i'r perwyl hwn gan roi pwysau ar wleidyddion y Cynulliad a San Steffan.

## Camau brys y gall y Cynulliad eu cymryd

Ar ben yr hyn a nodir yng ngalwad Cymdeithas yr Iaith am Ddeddf Eiddo, pwysleiswn fod yna gyfres o gamau brys y gall y Cynulliad eu cymryd nawr a fyddai yn gyfraniad cadarnhol i'r ymdrech i sicrhau dyfodol byw i'n cymunedau. Wrth gwrs, ni fydd y camau hyn ar ben eu hunain yn ddigon, ond maent wedi eu seilio ar yr un egwyddorion â Deddf Eiddo ac felly yn gam i'r cyfeiriad cywir. Felly yn ogystal ag ymgyrchu dros Ddeddf Eiddo, bydd Cymdeithas yr Iaith – yn ystod y tymor byr – yn cynyddu'r pwysau ar y Cynulliad i gymryd y camau syml hyn.

### 1. Cynyddu Cymorth Prynu

Mae angen cynydd enfawr yng nghyllideb y Cynulliad – a roddir i ddyblu cyfraniad awdurdod lleol o'r Grant Tai Cymdeithasol – er mwyn galluogi digon o deuluoedd i brynu tai yn eu cymunedau lleol. Mae'r gyllideb bresennol yn gwbl annigonol i wneud unrhyw wahaniaeth sylweddol i'r broblem. Yn ogystal mae angen edrych ar y cynllun gan sicrhau fod yr arian yn cael ei dargedu at deuluoedd sydd wir ei angen, gan fod tystiolaeth ei fod yn cael ei ddefnyddio fel 'top up' yn unig ar y funud.

### 2. Sefydlu'r Hawl i Rentu

Hyd yn oed gyda chynnydd yn y gyllideb uchod, ni fydd hi'n ymarferol i bawb fedru prynu tŷ. Felly, mae angen creu cronfa gyfochrog fydd yn sicrhau bod gan deuluoedd hawl i rentu tai ac eiddo yn eu cymunedau lleol. Ar hyn o bryd mae cymdeithasau tai yn defnyddio'r rhan fwyaf o'r Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer adeiladu stadau newydd o dai. Cred Cymdeithas yr Iaith fod angen sefydlu cronfa newydd i alluogi cymdeithasau tai i brynu unedau sydd ar werth yng nghanol ein trefi a'n pentrefi a'u gosod i deuluoedd lleol. Yn ôl y drefn hon, byddai teulu'n gwneud cais i rentu tŷ sydd ar y farchnad ac yna byddai elfen o gymorthdal trwy'r gronfa newydd i sicrhau rhent teg.

### 3. Cynllunio Dyfodol i'r Gymraeg a'n cymunedau

Methodd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei brawf mawr cyntaf yn y maes hwn. Yn 2001, cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer llunio Strategaethau Cymunedol cynhwysfawr y bydd ein hawdurdodau lleol yn eu llunio, ar y cyd gyda gwahanol asiantaethau cyhoeddus, ar gyfer y sir gyfan. Bydd y strategaethau hyn yn cynnwys cyfres o amcanion a fydd yn rhaid eu hystyried wrth i'r cynghorau a'r asiantaethau dan sylw lunio eu polisiau. Eto i gyd, er gwaethaf eu pwysigrwydd ac er gwaethaf protestiadau Cymdeithas yr Iaith, nid yw canllawiau'r Cynulliad yn cynnwys yr angen i wneud dyfodol y Gymraeg a chymunedau Cymraeg yn un o amcanion creiddiol y strategaethau hyn. O ganlyniad mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am gywiro'r sefyllfa. O gyflawni'r nod, byddai disgwyl i bob adran o'n cynghorau sir a phob asiantaeth gyhoeddus ystyried dyfodol y Gymraeg a'n cymunedau Cymraeg wrth lunio polisiau ym maes tai, cynllunio, datblygu economaidd, trafniadaeth, addysg, hamdden ayb. Felly, bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu ar lefel sirol i sicrhau fod ein hawdurdodau lleol yn cymryd y camau hollbwysig hyn.

### 4. Cynlluniau Gweithredu dros ddyfodol cymunedau Cymraeg

Yn dilyn cyhoeddi papur ymgyngorol y Cynulliad, Cyflawni Dros Gymru, ymddengys fel pe bai newidiadau yn cael eu gwneud i'r broses gynllunio yng Nghymru, ac yn nhyb Cymdeithas yr Iaith mae yma gyfle i weithredu cynlluniau a fydd o fudd i'r Gymraeg. Fel rhan o'r drefn newydd bydd

disgwyl i awdurdodau lleol lunio Cynlluniau Datblygu Lleol symlach a chyflymach, unwaith fod y broses hirwyntog o greu Cynlluniau Datblygu Unedol wedi dod i ben. Fel rhan o'r Cynlluniau Datblygu Lleol newydd, bydd modd creu Cynlluniau Gweithredu, sydd – yn ôl y canllawiau presennol – yn debygol o ganolbwyntio ar ardaloedd sydd yn newid'. Yn wyneb y newidiadau hyn, dadl Cymdeithas yr Iaith yw y bydd angen Cynlluniau Gweithredu ar gyfer pob cymuned sydd mewn peryg o golli'r diwylliant Cymraeg.


Byddai'r Cynlluniau Gweithredu hyn yn cael eu llunio ar y cyd rhwng y cynghorau sir a'r cynghorau bro a thref ac felly yn medru mynd i'r afael â gwir anghenion ein cymunedau o ran tai, gwaith, addysg, trafniadaeth ayb. Yn sicr byddai hyn yn gam ymlaen o'r sefyllfa bresennol gan fod y broses o lunio Cynlluniau Datblygu Unedol yn cynnig gweledigaeth rhy gyffredinol ac yn ddim mwy nag ymarfer swyddfa. O ganlyniad bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu i sicrhau fod y Cynulliad a'n hawdurdodau lleol yn cymryd y camau hyn er mwyn sicrhau fod ein cymunedau yn medru cyfranogi'n llawn yn y broses gynllunio.

## Casgliadau

Os yw'r Gymraeg i wynebu her yr oes fodern, rhaid wrth ddeddfwriaeth a fydd yn estyn i gymunedau lleol yr hawl ddemocrataidd i reoli eu dyfodol eu hunain. Yn y pendraw, gellir ond camu i'r cyfeiriad hwn trwy fesurau a fyddai'n ymdrin â'r farchnad breifat mewn tai ac eiddo. O ganlyniad, bydd Cymdeithas yr Iaith yn rhoi lle canolog i'r ymgyrch dros Ddeddf Eiddo, er mwyn sicrhau fod ein gwleidyddion yn achub ar y cyfle ymarferol olaf i fynnu dyfodol i'n cymunedau. Hyd yn hyn, bu i'r gwleidyddion anwybyddu'r pynciau anodd hyn mewn ymdrech i sicrhau consensws cyfforddus. Ymateb Cymdeithas yr Iaith – mewn gair a gweithred – yw na fydd agwedd o'r fath yn sicrhau dyfodol i'n hiaith a'n cymunedau. Cynigiwn ddewis arall. ☛

DATBLYGU ECONOMAIDD

# Cynnal cymunedau Cymru

 C red Cymdeithas yr Iaith y dylid datblygu'r economi gyda'r bwriad o wasanaethu pobl yn eu cymunedau. Dylid hybu gweithgarwch economaidd a fydd yn cynnal cymunedau hyfyw ac o fudd i Gymru gyfan. Pwysleisw'n y gall diffyg datblygiad, ac hefyd y math anghywir o ddatblygu, danseilio cymunedau Cymraeg trwy annog allfudiad o'n pobl ifainc neu fewnlifiad sylweddol o siaradwyr Saesneg.

Yn hyn o beth y mae Cymdeithas yr Iaith yn tynnu'n groes i'r lli. Mae'r ddoethineb gonfensiynol yn pwysleisio pwysigrwydd tyfiant economaidd – ar unrhyw delerau – a gweithrediad di-lyffethair y farchnad rydd. Golyga'r ddoethineb hon mai gofynion y farchnad ac nid anghenion pobl a'u cymunedau sydd yn rheoli datblygiad economaidd. Credwn fod trefn o'r fath yn tansellio cynaladwyedd ein cymunedau cymaint nes i faniffesto diwethaf Cymdeithas yr Iaith ddwyn y teitl 'Cymunedau Rhydd nid Marchnad Rydd'.

Yn y maniffesto hwnnw nôl ym 1992, dadansoddwyd effaith y farchnad ar gymunedau Cymru mewn cyd-destun Cymreig a Phrydeinig. Erbyn hyn, mae Cymdeithas yr Iaith yn gweld ein brwydr dros drefn economaidd newydd i gynnal cymunedau Cymru mewn cyd-destun cydwladol. Yn awr gallwn leoli ein hunain o fewn cynghrair fyd-eang o fudiadau gwrth-lobaleiddio.

Adnabyddwn lawer o ddadansoddiad y gynghrair wrth-lobaleiddio o ganlyniad i'n profiad ni o ymgyrchu yng Nghymru dros y degawd diwethaf. Dro ar ôl tro gwelwyd fod

grym yn prysur cael ei ganoli i ffwrdd oddi wrth gymunedau lleol, gan chwalu sail economaidd y cymunedau hynny ynghyd â rhagolygon yr iaith Gymraeg. Yn y pendraw gwelwyd mai'r un grymoedd strwythurol sydd yn tansellio cymunedau Cymraeg ag sydd yn bygwth pobloedd a'u diwylliannau ledled y byd. Ystyriwn ein brwydr felly fel amlygiad Cymreig o frwydr byd-eang dros drefn economaidd sydd yn gwasanaethu pobl yn hytrach nag yn eu rheoli. Trefn sydd hefyd yn parchu eu hunaniaeth, eu diwylliant a'u hamgylchedd. Mae'n frwydr dros ail-ennill rheolaeth i'n pobloedd dros rymoedd y farchnad.

Ein pwynt cychwynnol yw derbyn y gellir herio globaleiddio'n llwyddiannus. Fel ymgyrchwyr iaith credwn fod rhaid i ni ddefro i'n swyddogaeth i herio'r fath rymoedd – trwy ein hymgyrchoedd ni ein hunain a thrwy gydweithio gydag eraill. Mae angen i ni sylweddoli fod y drefn bresennol yn gymaint yn gasgliad o syniadau ac o ideoleg ag ydyw o realiti diriaethol. O ganlyniad, rhaid mynd ati i ddad-wneud y mythau a thynnu ymaith y marchnata a'r heip a ddefnyddir i'n perswadio mai dim ond trwy ildio i'r grymoedd hyn y gellir sicrhau datblygiad.

## Does neb yn gofyn y cwestiynau iawn

Ar hyn o bryd does neb yn gofyn pa fath o ddatblygu economaidd sydd ei angen i gynnal ein cymunedau Cymraeg ynghyd â bywyd cymunedol yn gyffredinol yng Nghymru. Clywn ddatganiadau simplistaidd yn unig gan arweinwyr gwleidyddol o bob

ochr. Dadleuir naill ai bod angen 'gwaith i gadw'r iaith' – heb holi pa fath ar ddatblygiad economaidd fyddai'n addas, neu ar y llaw arall fod 'gosod gofynion ieithyddol yn peryglu datblygiad economaidd'. Mae Cymdeithas yr Iaith yn herio'r weledigaeth economaidd sydd yn rhoi pwyslais simplistig ar dwf o unrhyw fath heb ystyried ei oblygiadau. Am hynny, galwn y gwleidyddion, a phobl Cymru yn gyffredinol, at ddadl o safon uwch er mwyn llunio strategaeth economaidd a fydd yn ateb gwir anghenion ein cymunedau.

Byddwn yn hollol realistig wrth agor ffrynt newydd i'n hymgyrchu yn y maniffesto hwn. Nid ydym am honni ein bod yn cynnig atebion llawn, na hyd yn oed ddadansoddiad llawn. Serch hynny, byddwn yn dechrau ar y dasg o ofyn y cwestiynau perthnasol ynglŷn â pha fath o ddatblygu economaidd a fydd yn sail i gynnal a datblygu cymunedau ledled Cymru. Yn ogystal, fel cymdeithas weithredol, byddwn yn amlinellu ein camau gweithredol nesaf ar gyfer ymgyrchu yn y maes.

## Degawd globaleiddio

Ar hyn o bryd caiff y grymoedd economaidd hyn eu derbyn fel rhai amhosibl eu gwrthwynebu gan sefydliadau yng Nghymru. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, wrth amlinellu ei weledigaeth economaidd ar gyfer Cymru am i'n gwlad fod yn ddwyieithog a chael amgylchedd o safon uchel, ond dywed hefyd y dylem ddod yn fwy cystadleuol drwy ddatblygu a mabwysiadu technolegau sydd yn arwain y ffordd ac ni

## Argymhellion Cymdeithas yr Iaith

### 1. Newid syniadol – cymunedoli

Rhaid i ni ymyrddhau o'r gred mai'r unig ffordd i ddatblygu yw trwy ganolbwyntio'n llwyr ar ddod yn fwy cystadleuol yn yr economi fyd-eang. Mewn gwirionedd, mae Cymru'n llai dibynnol ar allforion fel canran o'n GDP nag oeddem pan oedd glo yn holl-bwysig i ni. Trwy egwyddor cymunedoli, byddwn yn ymuno gyda'r rhai sydd yn galw am atal rheolau masnach ryngwladol sydd yn ffafrio'r corfforaethau aml-wladol, a chreu rheolau newydd sy'n rhoi cyfle teg i fasnach leol. Mae masnach leol yn llawer mwy tebygol o barchu diwylliant ac amgylchedd pobloedd.

Credwn fod angen hybu mentrau cydweithredol sydd wedi eu gwreiddio yn y gymuned leol. Trwy hyn rydym yn gwrthod y model o entrepreneuriaeth a gaiff ei ddirychafu gan yr Awdurdod Datblygu, fel yr unig ateb i broblemau economaidd Cymru. Mae'r model hwn, sydd yn ddibynnol ar lond dwrn o unigolion 'deinamig' yn groes i'r traddodiad Cymreig o gydweithio a chyd-dibyniaeth.

Cawsom ein coloneiddio gan brands – anghenion a grewyd gan y corfforaethau aml-wladol sydd tu allan i'n cymunedau a thu hwnt i'n rheolaeth. Maent yn sugno arian o'r economi leol, yn dinistrio diwylliant lleol, ac yn symud ymlaen wedi i'r elw ddarfod, neu pan fo elw gwell i'w wneud mewn man arall. Nid eu swyddogaeth yw gwasanaethu cymunedau lleol, ac mae hyn yn gwbl groes i safbwynt Cymdeithas yr Iaith. Credwn fod angen trefn economaidd sydd yn ein rhyddhau yn hytrach nag yn ein caethiwo. Gan dderbyn bodolaeth y corfforaethau aml-wladol yma, credwn fod angen creu rheolaeth ddemocrataidd arnynt.

Bydd Cymdeithas yr Iaith yn chwarae rhan mewn protestiadau a thrafodaethau rhyngwladol i geisio sicrhau rheolau mwy cyfiawn ar gyfer datblygu economaidd a pharch at gymunedau lleol.

### 2. Gwreiddiwch yma i werthu yma

Dylai fod disgwyl i gorfforaethau sydd am weithredu yn ein cymunedau ymwreiddio ynddynt a'u gwasanaethu, gan geisio defnyddio adnoddau lleol a gweithwyr lleol ynghyd â pharchu'r diwylliant a'r amgylchedd arbennig.

Gyda phob datblygiad o bwys, argymhellwn sefydlu partneriaeth rhwng y cwmni sydd am greu datblygiad a'r cyngor sir (neu'r Cynulliad yn achos datblygiad o bwys cenedlaethol). Byddai cytundeb y bartneriaeth yn cynnwys ymrwymiadau fel ag sy'n arferol yn y broses o geisio caniatad cynllunio. Byddai cytundeb o'r fath yn amlinellu cyfres o gamau y byddai'r gorfforaeth yn

ymgymryd â nhw dros y gymuned leol fel rhan o'r broses o gael derbyn caniatad am y datblygiad. Dadl ein gwrthwynebwyr yw y byddai hyn yn rhwystr i unrhyw fuddsoddi. Ein dadl ni yw y byddai ond yn atal datblygu o natur ecsbloetiadol ac y byddai corfforaethau blaengar yn gweld gwerth masnachol pendant mewn ennill ewyllys da'r gymuned leol trwy ymgymryd â phartneriaeth ffurfiol o'r fath. Ni fyddai hyn yn rhwystro buddsoddi mewnol, ond yn hytrach yn sicrhau rheolaeth ddemocrataidd drosto er lles ein cymunedau, gan amddiffyn ein diwylliant, ein hamgylchedd ynghyd â hawliau ein gweithwyr.

Bydd Cymdeithas yr Iaith yn cychwyn ymgyrchu am drefn o gytundebau neu ymrwymiadau cynllunio o'r fath er mwyn sicrhau fod cwmniau'n parchu ein cymunedau. Byddwn yn tynnu sylw at yr enghreifftiau gwaethaf o ddiffyg parch trwy weithredu uniongyrchol.

### 3. Datblygu cynaladwy

Er mwyn cynnal ein cymunedau a'u diwylliant, rhaid wrth ddatblygu economaidd cynaladwy. Dylid osgoi datblygiadau sydyn a di-reolaeth a fyddai yn y pendraw yn chwalo cymunedau.

Ar hyn o bryd, mae GDP Cymru ymhell tu ôl i un Prydain gyfan (80% o'r cyfartaledd). Bwriada'r Cynulliad Cenedlaethol geisio codi hyn i 90% o'r cyfartaledd o fewn y deng mlynedd nesaf. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'n economi dyfu 4% yn gyflymach na'r cyfartaledd Prydeinig er mwyn sicrhau hyn. Dyma lwybr peryglus gan fod twf mor sydyn yn gallu cael effaith andwyol ar ddiwylliant ac amgylchedd. Byddai hefyd yn denu ton arall o fewnfudwyr i Gymru gan roi mwy o bwysau ar ein cymunedau a chodi prisiau tai ymhellach gan annog allfudiad o'n pobl ifainc.

Mae twf sydyn hefyd yn gallu cuddio anhegwch, gan fod anghyfartaledd yn tyfu. Tra bod astudiaeth Banc y Byd yn awgrymu bod agor economi yn sydyn i fasnach gynyddol yn gallu cynyddu incwm tua 60% o'r boblogaeth, mae'r gwrthwyneb yn wir am y 40% sydd yn weddill.

Cred Cymdeithas yr Iaith fod yn rhaid i ddatblygu economaidd ganolbwyntio ar ail-ddosbarthu incwm yn ogystal â chreu cyfoeth. Felly mae'n rhaid cynllunio ar gyfer datblygu economaidd sydd yn deg a chynaladwy

### 4. Newid i'r drefn o ddatblygu economaidd

Galwn am newidiadau sylfaenol i'r drefn o ddatblygu economaidd a fodola yng Nghymru. Credwn y dylai'r grym a'r cyfrifoldeb fod yn nwylo pobl a chyrrff sydd yn ymboeni am ddyfodol ein cymunedau ac yn atebol i'r cymunedau hynny, yn

all Cymru ffynnu drwy wasanaethu'r farchnad fewnol fechan pan fo cwmniau byd-eang sy'n gwasanaethu'r farchnad fyd-eang yn y byd mawr.

Mae'r weledigaeth hon o Gymru fel gwlad sy'n cystadlu ar lefel fyd-eang yn cael ei rhannu a'i dyrchafu gan Awdurdod Datblygu Cymru. Mae'n brolio ar ei wefan fod ei lwyddiant wedi trawsnewid Cymru i fod yr hinsawdd busnes gorau yn Ewrop. Yr allwedd i'r llwyddiant, yn ol ein llawforynion economaidd, oedd y ffaith ein bod wedi ein bendithio gan gyflenwad rhagorol o lafur dawnus, brwd gyda phrisiau cystadleuol (h.y. llafur rhad).

Yn ôl dealltwriaeth Cymdeithas yr Iaith, mae datganiadau o'r fath yn gamarweiniol ac nid ydynt yn cynnig darlun cyflawn. Mae cwestiynau sylfaenol i'w holi ynglŷn â'r budd gwirioneddol a ddaeth i Gymru dros y degawd diwethaf yn sgil y fath strategaeth economaidd.

Rhwng 1983-2000, yn ôl Awdurdod Datblygu Cymru, bu'n gymorth i ddenu 2000 o brosiectau buddsoddi mewnol a fu'n help i sicrhau mwy na 200,000 o swyddi. Dylid trin yr honiadau hyn yn ofalus gan nad ydynt yn manylu ar faint o swyddi a grewyd a faint o'r ffigur hwn – sy'n debyg o fod yn or-amcangyfrif – a oedd yn ganlyniad i un cwmni yn meddiannu cwmni arall, sef y cyfuniadau a'r caffaeliadau sy'n rhan o'r mwyafrif o fuddsoddi tramor uniongyrchol nid yn unig yng Nghymru ond drwy'r byd.

Mae hanes trychinebus ffatri LG yng Nghasnewydd, a honnodd y byddai yn creu'n uniongyrchol hyd at 6000 o swyddi a degau ar filoedd yn anuniongyrchol, ac a dderbyniodd £200 miliwn o gymorthdal gan y Llywodraeth, yn dangos perygl darogan o'r fath. Pan ddigwyddodd argyfwng y Farchnad Stoc yn Ne-Ddwyrain Asia ym 1997, o ganlyniad i lobaleiddio cyllid, bu LG ymhlith y cwmniau'n dioddef y canlyniadau. Yn y diwedd, dim ond 3000 o swyddi a ddaeth i Gymru – ar gost o £67,000 yr un.

Y mae dadansoddiadau alternatiff ar gael e.e. dengys yr Athro John Lovering mai un gweithiwr mewn trigain a gyflogir mewn ffatri a sefydlwyd yn sgil y buddsoddiad mewnol a ddaeth ers canol yr wythdegau. Yn wir arweiniodd y buddsoddi hwn at greu dim ond un swydd am bob ugain a ddaeth o fentrau lleol. Go brin felly y gellir ystyried y polisïau hyn fel peiriant i yrru twf Cymreig.

Mae ein sylfaen economaidd i'w gweld yn fregus iawn yng Nghymru. Profodd y sector cynhyrchu – sydd i'w gyfrif am 30% o'n heconomi o'i gymharu â 17% trwy Brydain

– natur ansicr unrhyw fuddsoddi mewnol. Er gwaethaf ychydig leisiau o brotest, roedd Cynulliad yn gwbl ddi-rym i rwystro cwmni dur Corus rhag dileu 1,300 o swyddi yng Nghymru, yn bennaf oherwydd nad oes deddfwriaeth yma fel ag sydd ar gyfandir Ewrop i amddiffyn gweithwyr. Ychwanegwyd at hyn wrth i gwmnïau mawr megis Panasonic, Sony a Hitachi symud o dde Cymru i Ddwyrain Ewrop gan fynd â miloedd o swyddi gyda hwy. O ganlyniad dyma danseilio hygrededd efengyl yr Awdurdod Datblygu a'i gyfeillion.

Mae pethau yr un mor fregys ym myd amaeth, sydd wrth gwrs mor allweddol i gynnal llawer o gymunedau Cymraeg gwledig. Mae cyflogaeth mewn amaeth wedi gostwng i 2% o'r llafurlu Cymreig, gyda 40% ohonynt dros 60 oed. Mae cyfres o argyfyngau – BSE a chlwy'r Traed a Genau – ynghyd â newidiadau rhagweladwy yn y Polisi Amaeth Cyffredin yn arwain at ddigalondid pellach.

Yn yr un modd cwyd bygythiadau lu i rôl y sector gyhoeddus a hynny yn dilyn ugain mlynedd o wasgu. Mae'r cynlluniau PFI (Menter Cyllid Preifat) yn adeiladu asedau gyhoeddus gydag arian preifat gan gostio deirgwaith y raddfa log. Bydd hyn yn golygu fod cyllidebau enfawr yn symud o'r sector cyhoeddus i gwmnïau preifat, ac yn achos Cymru golyga hyn y bydd llawer o'r arian hwn yn dylifo allan o'r wlad.

Felly mae Cymdeithas yr Iaith yn codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn â hygrededd y strategaeth economaidd a goleddir ar hyn o bryd o fewn y sefydliad Cymreig. Eto i gyd awn ymhellach na hynny, gan y credwn fod angen asesu effaith y tueddiadau economaidd hyn ar fywyd ein cymunedau lleol, ac yn arbennig ar ragolygon yr iaith Gymraeg. Wrth wneud hynny yn fras, gwelwn fod ein cymunedau wedi derbyn nifer o ergydion economaidd. Amlinellir rai ohonynt isod, a galwn iddynt dderbyn sylw difrifol.

## Bygythiadau economaidd i'n cymunedau

Gwelsom ddatblygiadau enfawr dros y degawd diwethaf o ran canoli (ffurf fewnol ar lobaleiddio), dad-reoleiddio a chreu marchnadoedd. Yn ganlyniad i hyn fe danseiliwyd gwasanaethau ein cymunedau lleol. Dyma ergyd ddeuol i ddyfodol ein cymunedau Cymraeg gan y golyga fod llai o gyflogaeth leol ac hefyd fod y darparwyr

hytrach nag asiantaethau sydd am greu ystadegau ffafriol.

Yn gyntaf, rhaid sicrhau fod ein Cynulliad Cenedlaethol yn ennill rhagor o bwerau ym maes datblygu economaidd fel bod cynllunio'r cyfan trwy berspectif Cymreig. Anodd gweld sut y mae hyn yn bosibl heb rymoedd deddfwriaethol.

Yn ail, rhaid symud bwerau oddi wrth gyrff anghynrychioladol fel yr Awdurdod Datblygu. Mae corff o'r fath yn sicr o farnu ei lwyddiant trwy gynnull ystadegau amrwd ynglŷn â chyflogaeth, heb adnabod effaith ei bolisiau ar ein cymunedau nac adnabod dyheadau'r cymunedau hynny. Dylid datganoli llawer o'i bwerau i'n hawdurdodau lleol a fydd yn medru trafod sut fath o ddatblygu economaidd sydd ei angen i gynnal a datblygu cymunedau hyfyw ledled Gymru. Dylent gyflawni'r gwaith ar y cyd gyda sefydliadau addysg uwch o fewn y sir (gweler ein hadran ar Addysg am drafodaeth ar rol Colegau Taleithiol).

Derbyniwn y bydd nifer o faterion datblygu economaidd – o ran strwythur sylfaenol, gwasanaethau cenedlaethol, cysylltiadau allannol a datblygiadau o bwys cenedlaethol – yn sicr o barhau i gael eu rheoli ar lefel ganolog. Pwysleiswn fod yn rhaid i'r Cynulliad sicrhau rheolaeth ddemocrataidd gadarn ar unrhyw gorff canolog o'r fath.

Yn drydydd, cytunwn gydag eraill y dylai'r Cynulliad osod esiampl o ddatblygu yn y rhanbarthau trwy ddatganoli. Ond, y mae gweledigaeth Cymdeithas yr Iaith o sut i gyflawni hyn yn dipyn mwy radicalaidd na dim ond symud adrannau presennol yn ddaearyddol yn unig. Credwn fod angen symudiad mwy sylfaenol a fyddai'n golygu datganoli swyddogaethau llywodraethol i'n cymunedau lleol gan arwain at gydlynnu prosesau democrataeth, addysg a datblygu economaidd o fewn y cymunedau hynny.

## 5. Addysg ar gyfer datblygu economaidd

Cyfeiriwn sylw'r darlennydd at ein hadran ar Addysg. Credwn y byddai ymchwil a datblygu sgiliau o ran gweithgarwch economaidd yn rhannau hanfodol o'r addysg berthnasol newydd. Ni ddylid cynnig addysg o'r fath mewn sefydliadau arbenigol yn unig ond ym mhrif ffrwd y cwricwlwm, er mwyn pwysleisio mai swyddogaeth datblygu economaidd ddylai fod gwasanaethu pobl yn eu cymunedau.

Bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu i weddnewid trefn addysg uwch a phellach yng Nghymru.

## 6. Ymyrraeth uniongyrchol

Gwel Cymdeithas yr Iaith fod diffygion yn perthyn i'r duedd bresennol o greu a chyflogi mwy a mwy o 'hyrwyddwyr' a 'chydlynwyr' ym maes datblygu economaidd. Yn ogystal, naif yw dibynnu ar fenter ychydig o unigolion yn unig. Credwn fod angen sicrhau'r grymoedd hanfodol i alluogi awdurdodau lleol neu asiantaethau cymunedol i ymyrryd yn uniongyrchol er mwyn greu cyfleoedd gwaith yn ein cymunedau lleol.

Pwysleiswn nad yw cynigion Cymdeithas yr Iaith o ran Deddf Eiddo yn gyfyngedig i faes tai yn unig. Yr ydym o blaid i awdurdodau lleol feddu ar y gallu i brynu hefyd fusnesau a gwasanaethau lleol a'u gosod i denantiaid lleol, eto gydag ymrwymadau cymunedol fel rhan o'r denantiaeth.

Bydd Cymdeithas yr Iaith yn dwysau yr ymgyrch dros Ddeddf Eiddo o'r fath ac yn dwyn sylw at ei werth economaidd.

Yn ogystal mae angen gweithredu uniongyrchol er mwyn llenwi rhai o 'fylchau'r farchnad', yn enwedig o ran gwasanaethau Cymraeg. Mae potensial enfawr i fentrau 'gwerthu dros y we', gan nad yw'r farchnad electronig yn ddibynnol ar leoliad daearyddol. Ar yr un pryd, mae swyddi newydd – fel ymgynghorwyr ar dechnoleg – yn tueddi i gael eu creu a'u llenwi, ar hyn o bryd, gan fewnfudwyr i gymunedau Cymraeg. Mae'n anghyfrifol i esgeuluso'r fath potensial i greu gweithgarwch economaidd yn ein cymunedau Cymraeg, a'i adael i hap a damwain yn unig. Dylai peth o wariant y seminarau gael ei ail-gyfeirio i greu gwaith yn uniongyrchol.

## 7. Gwneud yn fawr o'n hamgylchedd

Nid yw cymunedau Cymru'n manteisio'n economaidd ar asedau helaeth – eu tirwedd eu hamgylchedd a doniau eu pobl. Caiff hyn ei amlygu ym maes twristiaeth, lle caiff cyfleoedd economaidd eu colli oherwydd diffyg ymyrraeth uniongyrchol a'r ddibyniaeth 'hap a damwain' ar i unigolion neu gwmnïau i ddiwydd adnabod posibiliadau.

Felly ceir llawer o bosibiliadau na weithredir arnynt. Ar yr un pryd, mae'r datblygiadau sy'n bodoli yn tueddi i fod yn anaddas iawn, gan fod llawer o'r hyrwyddwyr yn dod o'r tu allan i'n cymunedau heb feddu ar wybodaeth o'u hanghenion. O ganlyniad, mae Cymru'n colli cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch economaidd ac yn dioddef datblygiadau niweidiol.

Bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu i ddarbwyllio awdurdodau lleol i hybu'n uniongyrchol ddatblygiadau o ran twristiaeth Cymreig, a fyddant o fudd i'n cymunedau, ac am y grym iddynt wneud hynny.

Cymerwn enghraifft y twf mewn bandiau roc a gwerin Cymraeg. Gellid sefydlu cylchdaith dwristaidd yn yr haf a fyddai'n galluogi llawer o Gymry ifainc i dderbyn cyflogaeth barhaol yn y celfyddydau tra ar yr un pryd yn cryfhau'n diwylliant trwy'r flwyddyn a pheri i ddarpar-fewnfudwyr ddeall yn well natur wahanol Cymru. Ni fydd hyn byth yn digwydd o ddibynnu ar hap a damwain criw o entrepreneurs. Mae sawl enghraifft o'r fath.

## 8. Bas-data o gynhyrchwyr a gwasanaethau Cymreig

Gallai pob awdurdod lleol greu rhestrau manwl o wasanaethau a chynhyrchion lleol gyda'r disgwyliad y bydd cyrrif lleol yn eu defnyddio. Gallai amodau o'r fath fod yn rhan o'r ymrwymadau cynllunio y byddem am weld corfforaethau yn ymgymryd â hwy. Bydd Cymdeithas yr Iaith yn pwyso ar archfarchnadoedd ac eraill i ddefnyddio cynhyrchion a gwasanaethau lleol.

## 9. Gwerthu ein harbenigedd Cymraeg

Gall ein profiad yng Nghymru o ran creu lle i'r Gymraeg mewn meysydd megis addysg, technoleg a'r celfyddydau fod o fudd i grwpiau lleiafrifol trwy'r byd. Yn ogystal mae gwerth economaidd i'r wybodaeth hon. Felly, gellid hybu rhwydweithiau prynu a gwerthu rhwng cenhedloedd 'lleiafrifol'.

## 10. Gwerth economaidd hyder newydd y Cymry

Mae ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith o gymorth i greu hyder newydd yn ein cymunedau a pharodrwydd i weithio drostynt. Dyma sylfaen o bwys i ddyfeisio'r math o ddatblygiadau economaidd sydd â'r nod o sicrhau datblygu'r cymunedau eu hunain. Byddai pasio Deddf Iaith i orfodi'r sector breifat i barchu'r Gymraeg yn creu llaweroedd o swyddi trwy'r rheidrwydd i adwerthwyr mawr sefydlu rhwydweithiau dosbarthu unigryw i Gymru i gydymffurfio a gofynion ieithyddol.

Yr ydym yn hyderus y daw ein pobl i weld y bydd datblygiadau ein hiaith a'n cymunedau a datblygu economaidd yn gallu mynd law yn llaw – os anelwn at y nod hwnnw yn lle'r polisi taegaidd presennol o dderbyn unrhyw fath ar ddatblygu.

canolog newydd yn llawer llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u gwasanaethau.

- Canolwyd asiantaethau cyhoeddus megis Cyllid y Wlad a'r Swyddfa Nawdd Cymdeithasol, ac o ganlyniad, ni cheir bellach swyddfeydd lleol yn cyflogi gweithwyr o'r ardal.
- Mewn symudiad tebyg, canolwyd llawer o weinyddiaeth y sector breifat. Er enghraifft, caeodd BT lawer o'u cyfnewidfeydd ffôn lleol gan sefydlu trefn ganolog yn eu lle. Yn yr un modd caewyd nifer o fanciau lleol a diraddiwyd y swyddi yn y rhai sydd yn weddill. Ym mhob un o'r meysydd hyn caiff bron pob gwasanaeth newydd eu cynnig trwy gyfrwng y Saesneg a'i weinyddu'n ganolog heb gynnig unrhyw gyflogaeth leol.
- Yn y sector adwerthol – a fu'n sylfaen bwysig i'n cymunedau – disodlwyd busnesau lleol gan archfarchnadoedd, gydag effeithiau niweidiol. Nid yw'r cwmnïau yma yn cefnogi cynhyrchwyr lleol, nac yn gwneud defnydd ystyrlon o'r Gymraeg. Ar yr un pryd, mae'r effaith net ar gyflogaeth leol yn negyddol ac yn yr achos yma hefyd mae safon y swyddi lleol wedi dirywio gan y caiff y cyfan ei reoli o'r canol.
- Ym maes llywodraeth leol, dinistriwyd llafurloedd wrth i'r awydd i ddad-reoleiddio ac i greu marchnadoedd roi rhwydd hynt i gwmnïau preifat (sydd yn aml heb bolisiau iaith na chyflogaeth deg), i feddiannu llawer o'n gwasanaethau. Cafodd hyn effaith wael ar ragolygon ein cymunedau. Er enghraifft, mae dad-reoli ein systemau trafniadaeth wedi dinistrio nifer o gwmnïau lleol a'i gwneud yn llai ymarferol i fyw mewn cymunedau gwledig.
- Mae bygythiad pellach i'n cymunedau ar y gorwel. Mae Llywodraeth Prydain o blaid cyflwyno GATS – y Gytundeb Gyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau – a allai olygu agor llawer mwy o wasanaethau cyhoeddus fel addysg i'r farchnad breifat. Byddai hyn eto'n ergyd ddeuol, gan y byddai yn arwain at golli swyddi cyhoeddus mewn cymuned Gymraeg ynghyd â dderbyn gwasanaeth gan gwmnïau preifat na fyddai ganddynt yr un ymrwymiad at yr iaith.
- Yn sgil diffyg strategaeth uniongyrchol i greu swyddi addas ar gyfer ein cymunedau lleol, mae llawer o swyddi newydd fel ymgynghorwyr technoleg neu

ddylunio yn cael eu cyflenwi gan fewnfudwyr sy'n gallu manteisio ar y diffygion o ran polisiau tai a chyflogaeth ar gyfer pobl leol.

Dadl sylfaenol Cymdeithas yr Iaith yw bod angen dechrau edrych ar y materion hyn o ddifri gan ystyried datblygu economaidd o safbwynt cynnal a chryfhau cymunedau lleol yn naturiol. Y broblem sylfaenol yw nad oes neb â'r cyfrifoldeb am gynllunio strategol o'r fath. Dehonglir datblygu economaidd fel hybu twf ar unrhyw gyfri, a dehonglir datblygu ieithyddol mewn tremau diwylliannol. Mae ein cymunedau Cymraeg lleol yn marw o ddiffyg datblygu holistaidd. Mae Cymdeithas yr Iaith yn cynnig cyfres o argymhellion. ☛

ADDYSG

# Arfogi pobl Cymru

**Y**n wyneb y pwysau cynyddol ar yr iaith a cholli rheolaeth ar ein cymunedau o ganlyniad i ganoli a globaleiddio, gallai'r drefn addysg arfogi'n pobl – ac yn enwedig yr ieuenctid – i wrthsefyll y pwysau.

Trwy gyflwyno gwybodaeth a datblygu sgiliau ymchwilio a dadansoddi a datrys problemau – a hynny'n naturiol yn Gymraeg – gallai'r drefn addysg rymuso'n pobl yn yr orchwyl o aildeiladu cymunedau Cymru.

Yn yr wythdegau, arweiniodd Cymdeithas yr Iaith y frwydr dros Gorff Datblygu Addysg Gymraeg, ac fe lwyddwyd yn rhannol. Sefydlwyd Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg (PDAG), ac wedyn ei chwalo gan y Toriaid a chreu adran addysg o Fwrdd yr Iaith. Yn wyneb y profiad hwn, dadleuodd Cymdeithas yr Iaith yn y nawdegau fod yn rhaid i Gymru gael y rhyddid i ddatblygu'i threfn addysg ei hun (na ellid ei chipio oddi arnom) er mwyn cyflawni'r amcanion. Eto, llwyddwyd yn rhannol trwy fod sefydlu nifer o gyrff Cymreig ar lefel cenedlaethol ac wedyn Pwyllgor Addysg y Cynulliad.

Dadl Cymdeithas yr Iaith yn awr ar ddechrau'r ganrif newydd yw fod angen defnyddio hynny o ryddid a enillwyd i weddnewid ein sefydliadau addysg – o ran eu strwythur a'u swyddogaeth yn ogystal ag o ran cyfrwng a chynnwys yr addysg – er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.

Nid ein bwriad yw ceisio gwthio trefn addysg wahanol ar bobl Cymru er mwyn y Gymraeg yn unig. Prawf litmus yw'r iaith. Os yw'r drefn addysg yn niweidiol i'r iaith, dyma arwydd nad yw'r drefn yn ymatebol i

## Rhaid i bopeth newid

Beth sydd angen ei wneud? Rhaid i'r drefn addysg:

- 1 Drosgrwyddo gwybodaeth o'r iaith fel nad amddifedir neb o bobl Cymru'u hetifeddiaeth na chau neb allano gyfleon bywyd.
- 2 Alluogi myfyrwyr i fyw eu bywydau a chyflawni eu gwaith yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3 Drosgrwyddo gwybodaeth berthnasol am ddeinameg bywyd yng Nghymru a'r byd tu allan.
- 4 Alluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau gweithredol fel eu bod yn dechrau creu a dylanwadu a gweithio dros eu cymunedau'n rhan o'r broses addysgiadol.

anghenion pobl a gwerthoedd dynol. Mae'r hyn sy'n llesol i'r iaith hefyd yn hybu cyfiawnder sylfaenol, a galwn felly am bartneriaid yn y frwydr i weddnewid addysg Cymru. Galwn hefyd ar Bwyllgor Addysg y Cynulliad i ymgymryd â rol arweiniol.

## Uno er mwyn Cymru

Bu colegau addysg bellach Cymru hyd yn ddiweddar iawn yn cyflawni'u gwaith bron yn gyfangwbl Saesneg hyd yn oed yn y siroedd mwyaf Cymraeg.

Y colegau hyn fu'r rhwystr mwyaf i atal cymunedau Cymraeg rhag gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth gwrs mai Saesneg fu iaith masnach, swyddfeydd gweinyddiaeth gyhoeddus, ysbytai, banciau etc yn ein siroedd Cymraeg gan mai yn Saesneg y bu'r colegau hyn yn hyfforddi pobl. Bu'r Colegau hyn yn allweddol oherwydd eu bod yn hyfforddi myfyrwyr sydd at ei gilydd – ac yn wahanol i fyfyrwyr addysg uwch – am aros yn eu hardaloedd. Camgymeriad mwya Cymdeithas yr Iaith erioed fu anwybyddu'r maes hwn cyhyd, yn bennaf oherwydd fod cymaint o'i haelodau'i hun yn gynnyrch addysg uwch yn hytrach nag addysg bellach.

Llwyddiant mwyaf y Gymdeithas efallai yn niwedd y nawdegau oedd sicrhau newid mawr yn ethos a chyfrwng addysg y colegau hyn yn y gorllewin fel y deuant yn sefydliadau dwyieithog. Bydd Cymdeithas yr Iaith, yn yr amser byr, yn monitro'r datblygiadau hyn ac yn estyn yr ymgyrch at golegau mewn ardaloedd eraill hefyd. Byddwn yn rhoi sylw i'r manylion



## Trawsnewid addysg uwch

Mae oblygiadau pell-gyrhaeddol i'r newid swyddogaeth a argymhellir:

1. Byddid yn newid natur y cyrsiau a chynnwys yr addysg. Byddid yn trosglwyddo efallai'r un sgiliau ond yng nghyd-destun y dalaith. Byddai gwahanol adrannau yn seilio'r addysgu ar astudio economi'r dalaith, ecoleg y dalaith, cynllunio lleol, tueddion cymdeithasol yn y dalaith, diwylliant a chyfryngau lleol etc etc oll yng nghyd-destun datblygiadau yn y byd ehangach.
2. Byddid yn newid y berthynas rhwng y coleg taleithiol a llywodraeth leol ac asiantaethau eraill. Gweithredai'r colegau fel peiriannau ymchwil, gwerthuso a datblygu gan feithrin ymwybyddiaeth myfyrwyr o gyfrifoldeb at y cymunedau lleol a phrofiad gweithredu drostynt a rhoi sgiliau ar waith.
3. Byddid felly'n newid ethos yr addysgu i fod yn weithredol. Byddid yn dysgu trwy weithredu h.y. byddai myfyrwyr yn hybu'r economi lleol gydag astudiaethau a mentrau hyrwyddo, yn hybu cyfryngau a diwylliant lleol, yn gweithio dros yr amgylchfyd etc. Felly, yn bell o daro myfyrwyr gyda dyledion mawr am hyfforddiant gyrfa unigol, byddid yn rhoi lwfans teilwng i fyfyrwyr am eu gwaith dros y cymunedau lleol. Gellid arall-gyfeirio llawer o gyllid cwangos presennol i'r colegau newydd a fyddai'n cyflawni'r gwaith fel rhan o'r broses ymchwil ac addysgu.
4. Byddai angen system cymwysterau newydd trwy fod cyfuno addysg bellach ac uwch, ac yn wir addysg barhaus. Bu eisoes llawer mwy o gydweithio.
5. Byddai'r Gymraeg yn sylfaenol i lawer o'r cyrsiau newydd, gan y byddai llawer o'r ffynonellau'n Gymraeg, a llawer o'r partneriaid yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai lefel yr addysgu Cymraeg yn sicr o amrywio o dalaith i dalaith, ond dylai pawb mewn rhai taleithiau dderbyn cyrsiau sylfaen fel eu bod yn gallu cyflawni eu gwaith yn Gymraeg at ryw lefel, a byddai hyn yn berthnasol i rai cyrsiau ym mhob talaith.
6. Ni fyddid yn cyfeirio nac yn rhwystro myfyrwyr o ran eu dewis o goleg. Yn hytrach, byddai natur yr addysg yn debyg o sicrhau fod mwyafrif y myfyrwyr gydag ymlyniad at gymunedau lleol. Byddai'n arbennig o bwysig felly roi sylw manwl i hybu cysylltiadau rhyng-golegol tu fewn a thu allan i Gymru.
7. Byddai'r colegau hyn yn ymgymryd am holl gyfrifoldeb addysg barhaus yn y dalaith, a byddai eu cyfleusterau a'u hadnoddau (yn cynnwys y myfyrwyr llawn amser) mor agored â phosibl at wasanaeth y cymunedau

lleol. Byddai, wrth reswm, gyfran helaeth o fyfyrwyr rhan amser a fyddai'n cryfhau eto'r cysylltiad a'r cymunedau lleol.

8. Byddai'r colegau hyn mor allweddol fel bod angen llunio strwythur o reolaeth gyhoeddus a democrataidd arnynt – gyda llywodraethwyr o bliith cynghorau lleol, y Cynulliad, myfyrwyr a staff.
9. Derbyniwn y byddai angen o hyd ar lefel cenedlaethol sefydliadau arbenigol o ran addysg uwch, er enghraifft meddygaeth, cyfraith, garddwriaeth.

gweithredol, ac nid ymfodlonwn ar ddatganiadau o ewyllys da.

Mae angen datblygu adnoddau dysgu trwy'r Gymraeg, mae angen defnyddio technoleg newydd i gyfuno gwaith colegau lle bo niferoedd yn gyfyngedig, mae angen rhesymoli'r defnydd o adnoddau dysgu trwy'r Gymraeg trwy fod sector addysg bellach yn cydweithio ag ysgolion uwchradd a chyda sefydliadau addysg uwch. Yn y pen draw, yr unig ateb boddhaol yw uno er mwyn gwir wasanaethu Cymru a'r Gymraeg. Dychwelwn at y thema hon.

O ran sefydliadau addysg uwch, y mae'r drefn bresennol wedi dangos ei hun yn gwbl analluog i atal y rhagfarnu cywilyddus yn erbyn addysg trwy'r Gymraeg. Mae Cymdeithas yr Iath yn cefnogi ymdrechion i greu Coleg Ffederal Cymraeg fel modd o resymoli a datblygu'r defnydd o adnoddau dysgu Cymraeg yn yr amser byr.

Mae'n amlwg, fodd bynnag fod problem fwy sylfaenol yn sector addysg uwch. Nid yw seisnigrwydd colegau Prifysgol Cymru'n deillio'n sylfaenol oddi wrth iaith y cyrsiau nac oddiwrth wrth ganran isel y myfyrwyr o Gymru. Deillia'n hytrach o swyddogaeth y Brifysgol fel y'i canfyddir ac fel y'i gweithredir yn ymarferol.

Bodola'r Brifysgol i wasanaethu anghenion y Wladwriaeth a Diwydiant ac i hyrwyddo gyrfaedd myfyrwyr unigol yn y meysydd hyn. Nid yw'r Brifysgol yn wrth-Gymreig. Y gwir syml yw bod y Gymraeg a dyfodol ein cymunedau Cymreig yn amherthnasedd i'r Brifysgol yn gorff-oraethol, er nid o reidrwydd i staff unigol. Nid gwasanaethu Cymru na galluogi myfyrwyr i wneud hynny trwy hyfforddiant a phrofiad yw swyddogaeth y Brifysgol. Cystadla'n hytrach gyda sefydliadau addysg uwch eraill am y gyllid sydd ar gael (yn gyhoeddus a phreifat) i wasanaethu anghenion y Wladwriaeth a Diwydiant.

O ganlyniad, mae'r rhan helaethaf o'r addysg yn amherthnasol i anghenion sylfaenol Cymru, mae'n denu llawer o'i myfyrwyr o Loegr tra'n ecsbloetio ychydig o'r byd datblygol, a Saesneg yw cyfrwng naturiol yr addysgu.

Yn fwyaf difrifol, efallai mai'r Brifysgol yw'r achos mwyaf dros ddadwreiddio Cymry ifainc o'u cymunedau, yr achos mwyaf dros ladd cydwybod cymdeithasol a hybu uchelgais unigolyddol, ac achos mwyaf yr allfudiad o'n cymunedau sy'n creu gwagle mawr. Yn gyffredinol, mae'r Brifysgol yn denu Cymry ifainc o'u cymunedau i astudio cyrsiau nad sy'n berthnasol iawn i realiti

bywyd yn eu cymunedau a thrwy gyfrwng y Saesneg ac yn eu cyfeirio at lwybrau eraill. Ychydig iawn sy'n dychwelyd at eu cymunedau nac yn ystyried posibilïadau gwaith yng nghyd-destun ailadeiladu cymunedau wedi'r dadwreiddio system-ataidd.

## Gweddnewid ein colegau

Nid trwy gynydd bach yn nifer y cyrsiau Cymraeg na thrwy osod cwotau ar fyfyrwyr o ran eu cefndir y mae sicrhau newid real. Os yw'r Gymraeg i fyw, rhaid i bopeth newid. Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am newid swyddogaeth ein colegau fel mai gwasanaethu Cymru yw eu holl raison d'être.

Credwn mai estyn yr egwyddor gyfun yw'r peirianwaith mwyaf effeithiol dros gyflawni hyn – torri lawr y rhwystrau artiffisial rhwng addysg uwch a phellach a rhwng y colegau a'r cymunedau o'u cwmpas.

Galwn am sefydlu colegau taleithiol – efallai yng Ngwynedd, Clwyd, Dyfed-Powys, Abertawe, Caerdydd, Gwent a'r Cymoedd – a fyddent yn cyfuno darpariaeth yr holl sefydliadau addysg uwch a phellach o fewn y diriogaeth i drosglwyddo addysg a fyddai'n berthnasol i'r dalaith yn benodol tra'n allblyg yn ei golwg cyffredinol ar y byd. Byddai'r Colegau yr un pryd yn datblygu sgiliau perthnasol yn y myfyrwyr ac yn beiriannau i ddatblygu'r taleithiau.

Fel hyn, gallai ein colegau fod yn beiriannau ar lefel taleithiol (fel ein hysgolion ar lefel cymunedol) i adfer yr iaith a'n cymunedau yn lle bod yn rhwystrau. Gellid cymryd camau syml a chyflym tuag at y nod. Gellid ehangu swyddogaeth (a thiriogaeth trwy gyfuno) y consortia lleol o ran addysg 16+ er mwyn cydlynu'r ddarpariaeth rhwng y sectorau, gallai addysg Gymraeg ei chyfrwng arwain y ffordd gan fod cymhellion arbennig dros resymoli adnoddau i sicrhau'r ddarpariaeth, gallai Accac drefnu astudiaeth cwricwlwm a chymwysterau ar y cyd â chynrychiolwyr presennol addysg uwch a gallai Pwyllgor Addysg y Cynulliad gynnig arweiniad.

## Creu Cymru Gymraeg nid byd addysg Cymraeg

Mae perygl y gallai datblygu addysg Gymraeg ddod yn nod ynddo'i hun, yn hytrach nag yn gyfrwng tuag at nod. Rhaid

## Cwricwlwm i Gymru

- ❖ Argymhellwn fod y Cynulliad (efallai trwy Accac) yn gweithredu adolygiad cwricwlwm sylfaenol h.y. gan gwestiynu sylfeini'r cwricwlwm presennol o ran ei berthnasedd at baratoi disgyblion i fedru cyfrannu at eu cymunedau a datblygu sgiliau pwrpasol. Cyfeiriwn sylw at ddogfennau polisi Cymdeithas yr Iaith ar Astudiaethau Cymunedol a'r angen i drosglwyddo gwybodaeth o ran gweithrediad yr economi lleol, y cyfryngau, prosesau llywodraethu a chynllunio, astudio newidiadau cymdeithasol a diwylliannol yn ogystal â chyflwyno iethoed modern yng nghyd-destun Astudiaethau Ewropeaidd etc h.y. cyflwyno gwybodaeth mewn modd sy'n grymuso'r disgybl trwy ddangos posibilïadau gweithredu.
- ❖ Dylai'r un adolygiad ymwneud hefyd a dulliau addysgu e.e. meithrin sgiliau casglu a gwerthuso a dadansoddi gwybodaeth a ffurfio penderfyniadau gweithredu.
- ❖ Dylai fod elfennau gweithredol yn sylfaenol i'r addysg, a bod cydnabod hyn yn y drefn asesu e.e. creu prosiectau tîm yn y gymuned mewn gwahanol feysydd.
- ❖ O ran adolygu lle'r Gymraeg yn y cwricwlwm, dylid symud ymlaen at sicrhau fod pob disgybl yn gallu gwneud defnydd cymunedol o'r iaith hyd ryw lefel a'i bod yn gyfrwng naturiol yr holl addysgu mewn ardaloedd priodol – i'w penderfynu gan awdurdodau lleol.
- ❖ Dylid creu strwythurau i fagu ymdeimlad o gyfrifoldeb at y gymuned a sylweddoli dulliau o ddyllanwadu, hynny yw, cynghorau statudol ar gyfer myfyrwyr ysgol mewn ysgolion a fforymau ieuencid sirol y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â nhw o ran nifer gosod o benderfyniadau.
- ❖ Dylai adnoddau'r ysgolion fod yn agored i ddefnydd cymunedol o ran gweithgareddau arbenigol – er enghraifft llyfrgelloedd, chwaraeon, technoleg – gan adeiladau ar arferion gorau presennol. Dylai fod elfen gref hefyd o gyfathrebu rhwng y colegau taleithiol a'r ysgolion uwchradd o fewn y dalaith gan gynnwys cynlluniau mentora mewn grwpiau.

gwerthuso i ba raddau y mae byd addysg Gymraeg gynyddol yn llwyddo i newid realiti ieithyddol y cymunedau tu allan i'r ysgol. Rhaid bod yn realistig a sylweddoli na all addysg ynddo'i hun weddnewid cymdeithas.

Os bydd llawer o ddisgyblion ysgolion Cymraeg yn cael eu colli trwy eu bod yn ymadael â'u cymunedau, nid methiant yr ysgolion ond methiant trefn addysg uwch, yr economi a pholisïau tai a chynllunio sydd ar waith.

Cydnabyddwn ymdrech gwerthfawr cymaint o bobl yn y maes hwn o ran cynhyrchu degau ar filoedd yn fwy o siaradwyr Cymraeg a rhoi hyder i laweroedd ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol a'r gwerth addysgiadol mawr i'r disgyblion eu hunain. Erys, fodd bynnag, problemau sy'n ein hargyhoeddi fod angen datlygiad newydd yn hytrach na symud yn gynt ar hyd yr un trywydd.

Mae perygl y daw disgyblion i gysylltu'r Gymraeg yn unig â'r ysgol yn hytrach na chyda realiti adnabod eu cymuned, ac y gallant ei gadael ar ôl yn yr ysgol. Mae'r Gymdeithas wedi argymhell fod blaenoriaethu cyllid ar y datblygiadau hynny mewn addysg Gymraeg sy'n debyg o effeithio'n fwyaf uniiongyrchol ar y byd tu allan, er enghraifft hyfforddiant ar gyfer gwaith, mentrau diwylliannol sy'n agored yn y gymuned.

Mae perygl hefyd y daw disgyblion i gysylltu'r Gymraeg yn unig gydag awdurdod a'r drefn fel y mae yn hytrach na chydag ymdrech ar eu rhan nhw i greu trefn well.

Heb newid mwy sylfaenol, mae cwricwlwm nad sy'n arbennig o berthnasol i realiti bywyd yn y gymuned yn cael ei gyfieithu'n syml i'r Gymraeg.

Yn ogystal, gellid dadlau fod addysg trwy'r Gymraeg, wrth arwain disgyblion at addysg uwch, yn dadwreiddio disgyblion yn fwy effeithiol na phetasai'r addysg yn ymddangos yn gwbl estron.

Am y rhesymau hyn, y mae Cymdeithas yr Iaith yn argyhoeddiedig fod angen newid mwy sylfaenol mewn addysg uwchradd. Os yw'r Gymraeg i fyw, rhaid i bopeth newid. Ni fydd myfyrwyr yn barod ar gyfer her newydd addysg uwch onibai fod yr ysgolion yn eu paratoi. Mae angen hefyd gweddnewid swyddogaeth ysgolion trwy eu hintegreiddio ym mywyd cymunedau lleol.

Fel hyn, gallai'r drefn addysg arfogi cenhedlaeth o ddisgyblion gyda'r wybodaeth a'r sgiliau i ailadeiladu'u cymunedau a'r Gymraeg yn fwyfwy'n gyfrwng yn yr adferiad.

## Adfer cymuned

Nid yw'n ddigonol bellach ceisio addysg gynradd Gymraeg. Mae angen gweddnewid ysgolion i fod yn beiriannau adfer ein cymunedau Cymraeg a bywyd cymunedol yn gyffredinol yn yr un modd ag y byddai gan y Colegau rol strategol ar lefel taleithiol. Yn sicr, os yw'n cymunedau Cymraeg i fyw, rhaid i bopeth newid.

Bu datblygiadau sylweddol dros y blynyddoedd mewn addysg gynradd a meithrin trwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu ail iaith. Ymgyrchodd Cymdeithas yr Iaith yn llwyddiannus wedyn dros sicrhau mai'r Gymraeg oedd cyfrwng naturiol addysg gynradd mewn rhannau helaeth o'r wlad.

Mae angen cryfhau gweithrediad y polisi a sicrhau cynnydd fel bod pob ysgol yn anelu at hyn ond yn ôl ei chyflymdra ei hun. Yn yr ysgolion Saesneg eu cyfrwng, dylid gwneud defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng syml rhan o'r addysgu fel bod pob disgybl yn meithrin sgiliau iaith ac yn dod i weld y Gymraeg fel cyfrwng naturiol i'w ddefnyddio'n hytrach nac yn bwnc i'w ddysgu.

Dylai cynydd ar hyd y trywyddau hyn sicrhau bod llawer mwy o ddisgyblion unigol yng Nghymru'n rhugl eu Cymraeg.

Gofynnwn yn awr am fynd gam yn bellach trwy wneud yr ysgolion hyn yn beiriannau adfer ein cymunedau Cymraeg. Cyfeiriwn sylw at ein dogfen bolisi o 2000 – Her i Ysgolion Gwledig a fersiynau lleol fel Dyfodol Ysgolion Pentrefol Cymraeg Sir Gar (2001).

Credwn fod yr un egwyddorion yn berthnasol i ardaloedd gwledig llai Cymraeg ac, yn wir, i ardaloedd trefol. Yn lle cau a chyfuno ysgolion mewn ardaloedd trefol, dylid eto darganfod swyddogaeth ychwanegol iddynt o ran ailadeiladu ymwybyddiaeth o gymuned tu fewn i ardaloedd o drefi.

Ein gobaith eto yw y daw adferiad y Gymraeg yn naturiol yn rhan o adferiad cymunedol ehangach yn ein gwlad. Nid oes rol cyffredinol i'r Gymraeg yn y farchnad – mae pob lle iddi wrth adeiladu cymunedau Cymru.

Hoffem weld uned feithrin swyddogol (neu gyda phartner o'r sector gwirfoddol ym mhob ysgol gynradd gymunedol. O ran canllawiau cenedlaethol, dylai cyllido fod yn amodol ar ryw radd ar gyflwyno'r Gymraeg ym mhob uned feithrin – y radd yn dibynnu ar natur ieithyddol y gymuned, ond bod rhaglen i sicrhau fod unedau Cymraeg penodol ar gael o fewn cyrraedd i bawb.

## Diogelu ysgolion pentrefol Cymraeg

- ☛ Rhaid eu bod yn cydweithredu mewn clystrau gwirfoddol neu ffederasiynau ffurfiol gan gronni adnoddau ac yn ffurfio unedau addysgol cryf tra'n cadw profiad addysgol y disgybl tu fewn i'r gymuned, a
- ☛ Rhaid fod datblygu swyddogaeth yr ysgol bentre i fod yn ganolfan addysg, cyfathrebu a datblygu sgiliau newydd i adfer y gymuned gyfan gan sicrhau defnydd rhesymol o adnoddau.
- ☛ Dylai astudiaeth o'r gymuned leol fod yn sylfaenol i addysg gynnar y disgybl.
- ☛ Dylid ceisio cyllid o ffynonellau amrywiol i gydnabod rol cymunedol ysgol fel na ddaw'n straen gormodol ar y gyllideb addysg benodol o dan y strwythur cyllido presennol.

## Trefn addysg ar gyfer pobl Cymru

Ni bu balchder pobl Cymru yn eu trefn addysg bob amser yn iach – yn enwedig pan y'i hystyrid yn gyfrwng i unigolion ddianc o realiti bywyd yma. Ein pwyslais ni yw arfogi Cymry ifainc i wynebu'r realiti a dysgu sut y gallant gyfrannu at greu Cymru newydd – gyda'r sgiliau i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr ydym wedi pwysleisio'r elfen gymunedol oherwydd yr anwybyddir hi yn y drefn bresennol. Ond, mae Cymdeithas yr Iaith hefyd am i'n trefn addysg bwysleisio ein cyfraniad i wareiddiad byd, ac i weld ein gwaith yng Nghymru yng nghyd-destun ceisio cyfiawnder byd-eang.

Amod cyntaf cyflawni hyn y derbyn y wybodaeth a'r sgiliau a allent wneud realiti o ddemocratiaeth yng Nghymru a gosod esiampl i'r byd o drefn addysg ar gyfer pobl. ☛

STATWS YR IAITH

# Rhyddhau'r Gymraeg

**M**ewn oes o breifateiddio a chanoli, lle gwelir technoleg yn trawsnewid y modd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno i'r cyhoedd, gwelwn y Gymraeg yn cael ei gwtio fwy fwy i'r cyrion. Am hynny, cred Cymdeithas yr Iaith fod yn rhaid wrth gamau deddfwriaethol cyflawn er mwyn rhyddhau ac ehangu defnydd o'r iaith. Wrth gwrs ni all iaith fodoli mewn gwagle ac felly ni fydd Deddf Iaith ar ei phen ei hun yn ateb holl broblemau'r Gymraeg. Pwysleisw'n fod yn rhaid wrth seiliau economaidd a chynllunio cymunedol er mwyn cynnal a datblygu ein cymunedau. Serch hynny, cyfeirfornus yw awgrymu fod deddfwriaeth yn amherthnasol. Er mwyn sicrhau dyfodol i'r Gymraeg fel iaith fyw, mae deddfwriaeth a fyddai yn rhoi'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg ac i dderbyn gwasanaethau dyddiol trwy gyfrwng y Gymraeg yr un mor hanfodol â datblygu seiliau materol ein cymunedau. Rhannau o'r un frwydr ydynt.

## Deddf iaith arall? Ydy darn o bapur yn mynd i achub y Gymraeg?

Wrth gwrs, dyw deddf ar ei phen ei hun ddim yn mynd i sicrhau dyfodol i'r iaith. Wedi dweud hynny, anodd gweld sut y gall hi oroesi heb gyflwyno deddfwriaeth newydd. Yn wyneb grymoedd anferthol corfforaethau rhyngwladol a marchnad fyd-eang, mae pen-draw i'r hyn y mae ewyllys da a chydymdrech gymunedol, heb sôn am wleidyddiaeth, yn gallu ei gyflawni. Mae deddfwriaeth yn erfyn pwerus i ddiogelu

## Hen, hen hanes...

Yn ystod yr 80au dechreuodd Cymdeithas yr Iaith ymgyrchu dros Ddeddf Iaith Newydd i sicrhau fod pob cyhoeddiad a hysbysiad swyddogol yn dod yn naturiol ddwyieithog trwy gyfraith, heb orfod gofyn. Ar ôl ymgyrchu caled gorfodwyd y Llywodraeth Geidwadol i ymateb. Ceisiodd brynu amser trwy sefydlu Quango dof – 'Bwrdd yr Iaith Gymraeg' – gan ddewis yr aelodau eu hunain. Gwrthod hyn wnaeth Cymdeithas yr Iaith a pharhau i ymgyrchu. Daeth miloedd i raliau mawr yng Nghaerdydd, a dechreuodd pob math o bobl dorri'r gyfraith wrth brotestio dros ddeddf iaith gyflawn. Ymateb y Llywodraeth Geidwadol oedd ceisio rhannu pobl Cymru gan gynnig cyn lleied ag oedd modd i'n cadw yn dawel. O ganlyniad pasiwyd deddf iaith wan!

## Deddf Iaith a democratiaeth

Pasiwyd Deddf Iaith 1993 heb gefnogaeth unrhyw un o'r pleidiau eraill yn San Steffan. Pleidleisiodd Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei herbyn ac ataliodd yr aelodau Llafur. Bu'n rhaid i'r Toriaid ddiwyngu unwaith eto ar bleidleisiau aelodau o ganol Lloegr. Yn wir, mae hanes Deddf Iaith 1993 yn pwysleisio'r elfennau o ddiffyg democratiaeth a fodolai yng Nghymru cyn dyfodiad y Cynulliad.

*Gelli di ddarlenn mwy am safbwyntiau'r gwleidyddion am Ddeddf '93 ar y pryd yn Deddf Iaith Newydd i'r Ganrif Newydd*

hawliau pobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

## Ond mae deddf iaith gyda ni yn barod, on'd oes?

Oes, mae un gyda ni'n barod, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ond dyw hi ddim yn sicrhau bod y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg ym mhob agwedd ar fywyd. Yn wir, mae'r ddeddf hon yn crisialu statws israddol y Gymraeg drwy wneud ei defnydd yn amodol ar fod yn "briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol".

## Mae'n dda i ddim, felly?

Ddywedwn i ddim mo hynny. Mae'r Gymraeg yn fwy amlwg yn y sector gyhoeddus nag a fu, ac mae hynny o ganlyniad i Ddeddf 1993, ond dyw hi ddim yn berffaith o bell ffordd ac mae llawer iawn o fylchau ynddi.

## Fel beth?

Y peth mwyaf sylfaenol yw'r ffaith nad yw hi'n datgan yn ddiamwys bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae rhai yn awgrymu fod y Gymraeg eisioes yn mwynhau statws swyddogol, ond y gwir amdani yw – yn absenoldeb unrhyw ddatganiad clir – nad oes gan hyn unrhyw arwyddocad realistig.

Ond os yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fwyfwy fel "iaith swyddogol" yn y sector gyhoeddus, yn ymarferol, ydy hi'n gwneud gwahaniaeth nad oes cymal penodol yn datgan ei bod yn iaith swyddogol?

Ydy, achos dyw'r ddarpariaeth yn y sector gyhoeddus ddim yn gyson drwy'r wlad, felly mae 'na ddryswch ymhlith y siaradwyr Cymraeg a phobl nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg ynghylch statws yr iaith. Dyna pam roedd yr aelod o gyngor Sir Caerfyrddin wedi honni ei bod yn anghyfreithlon i siarad Cymraeg yng Nghabinet y Cyngor a pham fod gweision sifil yn y Cynulliad Cenedlaethol yn mynnu mai'r Saesneg yw'r unig iaith fewnol swyddogol. Dyna pam mae 'na esiamplau niferus o gyflogwyr yn gwahardd eu gweithwyr rhag siarad Cymraeg.

Cred Cymdeithas yr Iaith fod yn rhaid cymryd cam o'r fath er mwyn dangos y gwerth a roddwn ar ein hiaith. Byddai hefyd yn arwydd clir i'r byd tu allan fod Cymru'n wlad ddwyieithog a'i bod yn disgwyl gwasanaethau dwyieithog. Byddai darparwyr gwasanaethau a masnachwyr yn ymwybodol o fodolaeth yr iaith Gymraeg a dyhead pobl Cymru i'w defnyddio.

A fyddai unrhyw fantais ariannol o ddatgan y Gymraeg yn "iaith swyddogol"?

Byddai. Yn un peth byddai'n haws cael arian Ewropeaidd i'r iaith os yw hi'n glir yn gyfreithiol ei bod yn iaith swyddogol. Ac yn ail, byddai'n cryfhau llaw'r Cynulliad wrth ddadlau â'r Trysorlys am gyllid ar gyfer pethau sydd y tu allan i Fformiwla Barnett, fel hybu'r Gymraeg. Os yw hi'n iaith swyddogol, nid mympwy sydd y tu ôl i'r cais.

Dw i'n gweld. Rydych chi hefyd yn sôn am ddatgan y Gymraeg yn "briod iaith" Cymru. Beth yw ystyr hynny?

Priod iaith gwlad yw'r iaith sy'n arbennig neu yn unigryw iddi. Y Gymraeg yw'r iaith sy'n unigryw i Gymru. Mae hi'n rhan o'n hunaniaeth ni fel cenedl. Mater o ffaith yw hyn.

### Deddf Iaith i'r sector breifat

Mae'r angen i ymdrin â'r sector breifat yn gwbwl ganolog. Ystyrier:

Sut mae modd ar y naill law gydnabod pwysigrwydd yr economi i iaith, ond ar y llaw arall anwybyddu'r ffaith foel nad yw'r Ddeddf Iaith bresennol yn cyffwrdd â'r sector breifat?

Sut mae cysoni ar y naill law bod eisiau cynyddu defnydd o'r Gymraeg, ond ar y llaw arall methu gweld cymaint o gyfleoedd sy'n cael eu colli drwy eithrio'r sector breifat o'r ddeddfwriaeth?

Wrth gwrs, pan yn trafod yr angen am ddeddfwriaeth fydd yn ymestyn i'r sector breifat, cwyd y cwestiwn ynglŷn â phriodoldeb ymyrryd yn y farchnad rydd. Wrth gwrs mae'r consensws neo-ryddfrydol presennol, sydd yn rhoi pwyslais ar ddad-reoleiddio, yn dadlau yn erbyn ymyrraeth o'r fath. Yn eu tyb hwy ni ellir cymryd unrhyw gamau na fydd yn hyrwyddo symudiad rhydd cyfalaf. Gwrthod rhesymeg o'r fath y gwna Cymdeithas yr Iaith, gan ei fod yn resymeg sydd yn anwybyddu'n llwyr anghenion yr iaith Gymraeg ac sydd yn arwain at allgau cymdeithasol.

Pwysleiswn fod yn rhaid wrth ymyrraeth yn y farchnad er mwyn diogelu hawliau ieithyddol pobl Cymru. Mae deddfwriaeth i ddiogelu hawliau menywod, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a'r amgylchedd eisioes yn bodoli ac yn effeithio ar fusnes.

Ar yr un pryd, pwysleiswn y modd y mae ymgyrchu yn y maes yma yn cyfrannu at ymdrech ehangach i hyrwyddo gwerthoedd democrataidd ar draul rhai corfforaethol. Yn ol y drefn bresennol, gall gwahanol gwmnïau mawrion fasnachu yng Nghymru gan wneud elw mawr, tra'n anwybyddu'n llwyr yr angen i barchu'r iaith Gymraeg. Ond, trwy basio Deddf Iaith Newydd yn ol dymuniad ein Cynulliad Cenedlaethol gellid hawlio graddfa o reolaeth ddemocrataidd dros weithgarwch y cwmnïau hyn.

Dych chi ddim yn dweud taw'r Gymraeg yw'r unig iaith "gywir" i Gymru?

Nac ydyn. Canlyniad prosesau hanesyddol yw'r ffaith ei bod yn briod iaith. Dydyn ni ddim yn dweud ei bod yn iaith well nag unrhyw iaith arall.

Dw i ddim cweit yn deall y gwahaniaeth rhwng galw'r Gymraeg yn briod iaith ac yn iaith swyddogol?

Mae'r Gymraeg eisoes yn briod iaith y wlad, dyw deddf ddim yn gallu newid hyn. Ond dim ond deddf sy'n gallu gwneud iaith yn "swyddogol". Mae brodorion Lwcsembwrg i gyd yn siarad Lwcsembwrg, fel y buont ers canrifoedd. Ond dim ond yn 1984 y cafodd hi ei chydnabod yn swyddogol, mewn deddf, yn "iaith genedlaethol" y wlad. Doedd y ddeddf ddim wedi newid dros nos realiti beunyddiol y bobl oedd yn siarad yr iaith â'i gilydd ers cenedlaethau, ond o hynny ymlaen cafodd fwy o le ym mywyd cyhoeddus y wlad. Er ei bod yn iaith genedlaethol, mae Ffrangeg ac Almaeneg hefyd yn ieithoedd swyddogol.

Pam felly eich bod chi eisiau i'r ddeddf newydd gynnwys y Gymraeg fel priod iaith?

Achos mae'n rhoi'r Gymraeg yn ei lle iawn yn amgylchedd ieithyddol Cymru. Hi yw priod iaith y wlad. Mae'r Saesneg eisoes, de facto, yn iaith swyddogol Cymru, gan taw hi, de facto, yw iaith swyddogol y Deyrnas Unedig (er nad oes datganiad cyfreithiol penodol i'r perwyl hwn). Rydyn ni'n gofyn felly i'r ddeddf newydd gydnabod realiti'r Gymraeg fel priod iaith y wlad. Mae hyn yn darparu sail i ddatgan ei bod yn iaith swyddogol yng Nghymru hefyd. Mae'r naill yn dilyn y llall. Rydyn eisiau gweld y Gymraeg yn mwynhau'r un statws â'r Saesneg. Dyna i gyd.

Ond beth am yr ieithoedd eraill sy'n cael eu siarad yng Nghymru?

Os ydych chi'n meddwl amdani, bu Cymru'n wlad amlieithog erioed - rhwng y Rhufeiniaid, y Llychlynwyr, y Gwyddelod, y Normaniaid, y Saeson, y Fflemigiaid, yr

Eidalwyr, yn ogystal â'r bobl sydd wedi dod o bedwar ban byd i weithio a chael lloches yma dros y canrifoedd. Drwy gydol yr hanes amrysin hwn, bu'r Gymraeg yn sment ieithyddol i'r genedl. Rydyn ni'n ymfalchio yn ein treftadaeth amlddiwyllianol ac yn credu y dylid parchu hawl pobl i weld eu hieithoedd cymunedol nhw yn ffynnu.

**lawn. Priod iaith, iaith Swyddogol.**

**Beth arall rydych chi eisiau yn eich deddf newydd?**

Yr hyn rydyn ni am weld yw sefyllfa lle bydd pawb yng Nghymru yn gallu byw eu bywydau drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis.

**Breuddwyd hyfryd, ond beth am ychydig o fanylion?**

lawn. Edrycha ar y cysyniad o ddarparu gwasanaeth. Roedd Deddf 1993 wedi sefydlu trefn lle mae'n rhaid i rai rhannau o'r sector gyhoeddus ddarparu rhai gwasanaethau yn Gymraeg. Dyma drefn y cynlluniau iaith. Mae'n broses hir ac amrywiol o ran effeithiolrwydd. Yr hyn rydyn ni eisiau'i weld mewn deddf iaith newydd yw hawl i bawb yng Nghymru gael nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau drwy'r Gymraeg os dyna yw eu dewis, beth bynnag fo statws y darparwyr – cyhoeddus, preifat, neu wirfoddol.

Yn nhyb Cymdeithas yr iaith mae'r ffaith nad yw Deddf iaith 1993 yn cyffwrdd â'r sector breifat yn golygu ei bod bellach yn gwblw aneffeithiol o ran ateb anghenion y Gymraeg yn y ganrif newydd. Dros y blynyddoedd diwethaf, preifateiddiwyd llawer o'r hen gyfleustodau (dŵr, nwy, trydan a'r rhellffyrdd), gan olygu nad oes gan gwsmeriaid bellach yr hawl i fynnu gwasanaeth Cymraeg ganddynt. Ar yr un pryd, mae'r holl ddatblygiadau modern a dylanwadol a fu ers 1993 yn eiddo i'r sector breifat ac felly yn medru anwybyddu'r Gymraeg yn llwyr.

**Rydych chi eisiau gorfodi'r sector preifat i ddefnyddio'r Gymraeg felly?**

Ydyn. Beth sy'n bod ar hynny?

## Gwneud y Gymraeg yn gyffrous a pherthnasol

Mae ein dadl dros Ddeddf Iaith Newydd yn pwysleisio'r peryg gwirioneddol sydd o weld y Gymraeg yn cael ei gadael ar ôl yn y ganrif ddiwethaf. Ers pasio'r hen ddeddf ym 1993 gwelwyd llu o ddatblygiadau – pob un ohonynt yn anwybyddu'r iaith Gymraeg. Canlyniad hyn yw creu sefyllfa lle caiff y Gymraeg ei gadael ar ôl, wrth i hen enillion gael eu ffosileiddio yn y gorffennol. Mae peryg gwirioneddol y caiff y Gymraeg – yn enwedig ymhlith ein pobl ifanc – ei chysylltu unwaith eto gyda'r gorffennol, tra bo'r Saesneg yn cael ei chysylltu gyda'r dyfodol. Rhaid rhwystro hyn rhag digwydd, trwy sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei gweld fel cyfrwng realistig a pherthnasol ym mhob agwedd o'n bywydau.

Os ydym o ddirif am drawsnewid rhagolygon y Gymraeg, credwn fod rhaid cael deddfwriaeth i ffurfioli hawliau pobl Cymru ac i osod sylfaen gadarn i unrhyw ymdrech ystyrlon o blaid yr iaith. Realiti ein bywyd modern yw mai cwmnïau preifat sydd yn darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus ac adwerthol – dim ond trwy Ddeddf Iaith Newydd y gellir ymdrin â'r realiti hwn, gan ennill lle teilwng i'r Gymraeg.

**Oni fyddai perswadio pobl yn well na'u gorfodi?**

Pwy sydd â'r breuddwydion hyfryd nawr? Wrth gwrs, mewn byd delfrydol, fyddai dim angen deddfau a rheolau, byddai pawb yn gwneud beth sy'n iawn drwy'r amser. Ond yn anffodus, nid byd fel 'na rydyn ni'n byw ynddo. Ar ben hynny, mae'r sector breifat wedi bod yn rhydd i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg o'i gwirfodd ers blynyddoedd, ond beth sydd wedi digwydd? Y gwir yw bod cymdeithas yn deddfu er mwyn gwahardd y drwg a chadw'r da. Mae deddfau yn bodoli er mwyn amddiffyn yr amgylchedd, hawliau pobl anabl ac isafswm cyflog, am nad yw'r sector breifat yn delio â'r pethau hyn yn wirfoddol.

Nid llwyddo i ennill ewyllys da yw'r mesur o lwyddiant, ond yn hytrach peidio â gorfod bod yn ddibynol arno o gwbl. Nid drwy fod ar drugaredd eraill mae creu cymdeithas deg a chyfartal.

**Ond byddai gorfodi'r sector breifat i wario arian ar wneud pethau yn Gymraeg yn wael i'n heconomi fregus ni. Edrychwch beth ddigwyddodd yn Quebec pan wnaethon nhw basio eu deddf iaith nhw.**

Gadewch inni edrych ar Quebec 'te. Mae'r ddeddf ddrwgenwog (Mesur 101) (1977) yn sicrhau hawliau ieithyddol sylfaenol y boblogaeth Ffrangeg drwy fynnu, ymhlith pethau eraill, bod busnesau yn cynnig eu gwasanaethau yn Ffrangeg a bod gweithwyr Ffrangeg yn gallu defnyddio eu hiaith eu hunain yn y gweithle. Mae gan Quebec un o'r economïau sy'n tyfu gyflymaf yng Ngogledd America. Yn 2000 tyfodd GDP 4.5%, cynyddodd buddsoddiadau preifat o 4.4% a chynyddod allforio o 19.6%. Mae rhyw 1,200 o gwmnïau o bedwar ban byd yn ddigon dewr i gynnal busnes yn Quebec, er gwaethaf y ddeddfwriaeth iaith "lem" gyda chwmnïau fel Rolls Royce yn buddsoddi rhyw \$300 M yn 2000. Mae sgiliau dwyieithog ei gweithlu wedi ei galluogi i arwain y byd mewn technoleg gwybodaeth a thelathrebu.

Pa ran o'r wladwriaeth Sbaenaidd yw'r fwyaf llewyrchus yn economaidd? Catalwnia. Unwaith eto, nid yw realiti yn cefnogi'r myth bod amddiffyn hawliau

ieithyddol yn wael i'r economi.

## Fyddech chi'n disgwyl i siop pizza yng Nghas-gwent gynnig gwasaneth cwbl Gymraeg i bob cwsmer felly?

Mae ein cynlluniau ni ar gyfer deddfwriaeth yn y maes hwn yn rhai digon rhesymol. Yr hyn hoffem ni weld yw matrices o lefelau cyrhaeddiad gwahanol. Byddai'r matrices yn seiliedig ar nifer o ffactorau amrywiol megis:

- (a) natur y gwasanaeth;
- (b) adnoddau'r darparwr
- (c) nifer a chanran siaradwyr Cymraeg yn ardal weithredu'r darparwr
- (d) lefel y cyswllt â'r cyhoedd
- (e) defnydd o dechnoleg

Hynny yw, yr un fyddai'r nod yn tymor hir ar gyfer pob darparwr gwasanaeth yng Nghymru, ond sylweddolwn na fyddai'n bosibl chwyldroi'r sefyllfa dros nos. Bydd y matrices yn gyfrwng blaenoriaethu a chreu amserlen ystyrlon ar gyfer cyrraedd y nod.

Felly o ran y siop pizza yng Nghas-gwent, ni fyddwn yn disgwyl gwasanaeth 100% yn syth, ond byddwn yn disgwyl gweld rhai newidiadau, fel iaith yr arwydd y tu allan i'r siop, yn eithaf buan, yna yn ddiweddarach, iaith y fwydlen, ac felly ymlaen. Bydden ni'n disgwyl i siop ddiillad yn y Bala gyrraedd y nod dipyn yn gynt.

## Fyddai pob busnes yn gorfod gwneud cynllun iaith fel cyrff yn y sector cyheodus?

Na fyddai. Rydyn ni am weld y system cynlluniau iaith yn dod i ben. Yn bennaf am eu bod yn ddull aneffeithiol o gynnal gwasanaeth Cymraeg. Mae rhai cyrff cyhoeddus yn dal heb gyflwyno cynllun iaith bron i 10 mlynedd ar ôl i'r ddeddf ddod i rym. Yn eu lle, bydd set o Safonau Cyrhaeddiad Ieithyddol Cenedlaethol ar gyfer gwahanol fathau o gyrff a busnesau a bydd disgwyl i bob corff a busnes gydymffurfio â'r Safon yn ôl eu lle ar y matrices. Swyddfa'r Comisiynydd Iaith fydd yn arolygu ac yn sicrhau cydymffurfiaeth.

## Byddai costau ychwanegol yn taro busnesau bach yn drwm, on' byddent?

Mae'n bosibl y gallai'r Cynulliad gynorthwyo

busnesau bach yn ariannol – drwy fenthyciadau llog isel neu ddi-log, neu ostyngiad mewn trethi busnes, ayb. petaent mewn gwir angen.

## Oes rhywbeth arall rydych chi eisiau yn y ddeddf newydd?

Oes. Digonedd. Yn fyr:

- ☛ yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- ☛ yr hawl i addysg ar ôl 16 yn y Gymraeg a thrwy'r Gymraeg
- ☛ yr hawl i gael rheithgor Cymraeg
- ☛ yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y carchar
- ☛ arwyddion ffordd yn Gymraeg drwy Gymru (gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg os defnyddir iaith arall)
- ☛ diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chreu:
  - Cyngor yr Iaith Gymraeg (fforwm cynrychioladol)
  - Comisiynydd yr Iaith Gymraeg (sicrhau gweithredu'r ddeddf)
  - Awdurdod Cynllunio Ieithyddol Cymru (cynllunio ieithyddol)
  - Canolfan Corpws y Gymraeg (terminoleg)

## A beth am y dechnoleg newydd?

Wrth gwrs – mae Cymdeithas yr Iaith yn dadlau bod rhaid creu strategaeth hirdymor a phell-gyrhaeddol ar gyfer dyfodol y Gymraeg ym maes technoleg. Ryn ni'n galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu tasglu a fydd yn gweithredu i sicrhau lle i'r Gymraeg mewn datblygiadau modern. Darllena am ein syniadau yn ein dogfen bolisi Deddf Iaith Newydd i'r Gannif Newydd.

## Dyna'r cyfan?

Ie, dwi'n meddwl. Am y tro. ☛

DIWYLLIANT A CHYFRYNGAU

# Yr allwedd i ddiwylliant cymunedol

**N**id oes swyddogaeth i'r iaith ond fel allwedd i ddiwylliant ei phobl. Felly, os bydd byw y Gymraeg, rhaid wrth ddiwylliant eang a bywiog a fydd yn ein galluogi i fynegi ein dyheadau ac i wneud synnwyr o'n profiadau, o fewn cyd-destun Cymreig. Dylai diwylliant o'r fath fod yn ymatebol i ddatblygiadau'r oes, tra yn rhoi gwerth ar ein hetifeddiaeth. Adlewyrcha hyn y ffaith fod Cymdeithas yr Iaith yn gwrthwynebu ffoseleiddio'r diwylliant Cymraeg gymaint ag y mae'n gwrthwynebu yr awydd i ymwrthod ag ef.

## Hanfod diwylliant

Er y cydnabyddwn nad yw diwylliant yn rhywbeth y gellir ei ddiffinio yn haearnaudd, credwn mai hanfod diwylliant yw ymwneud pobl gyda'i gilydd o fewn cymuned – eu gwerthoedd, eu perspectif ar y byd, eu gweithgareddau, eu sefydliadau a'u hymdeimlad o berthyn. Felly dehonglwn ddiwylliant, ynghyd â'i werth, o berspectif eang, sydd yn cynnwys gweithgareddau cymunedol naturiol ynghyd â rhai diwylliannol ffurfiol.

Pwysleisiwn fod ein diwylliant, fel yr iaith, yn rhywbeth sydd yn perthyn i bawb yng Nghymru, fel etifeddiaeth gyffredin. Felly mynnwn fod meddiant o'r iaith yn rhoi i'n pobl allwedd i'w diwylliant, sydd yn y pendraw yn allwedd i'n rhyddid. O ganlyniad mae iddo berthnasedd ym mhob rhan o'r wlad.

Credwn mai priod waith Llywodraeth Cymru yw cydnabod gwerth cymuned a

diwylliant a'u hybu. Dylai wneud hyn gymaint ag y byddai'n ceisio hybu economi ein gwlad. Bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu dros sicrhau'r amodau a roddant gyfle i'n diwylliant ac i'n cymunedau ffynnu.

## Yr her a wynebwn

Dileu amrywiaeth – yr her byd eang Erbyn hyn, rhaid dehongli'r her i'n diwylliant Cymraeg o fewn cyd-destyn byd eang. Ar hyn o bryd, gwelir carfan gorfforaethol sydd yn cael eu gyrru gan anghenion marchnadol yn llyncu gwahanol diwylliannau ym mhob rhan o'r byd. Mae o fudd ariannol i'r garfan hon i greu unfurfaeth ddiwylliannol – yn seiliedig yn bennaf ar yr iaith Saesneg ac ar berspectif arbennig o'r byd – trwy werthu cynhyrchion global newydd a chan geisio disodli unrhyw hunaniaeth sy'n rhwystr i'r farchnad. Canlyniad eithaf y broses hon yw creu un diwylliant bas, sydd yn trin pobl fel defnyddwyr unigol heb wreiddiau. Yn sicr, ni fydd hwn yn ddiwylliant sydd yn ymatebol i anghenion cymunedau nac yn gwerthfarogi'r iaith Gymraeg.

## Diwylliant Cymreig sefydliadol

Tra bod ein diwylliant Cymraeg mewn peryg o gael ei lyncu gan rymoedd byd-eang, fe gwyd cwestiynnau hefyd ynglŷn â'r modd y mae'r diffiniad o'r diwylliant hwnnw yn cael ei herwgipio gan rymoedd ceidwadol y sefydliad. Rhybuddiwyd rhag y duedd hon ym 1992. Eto i gyd, erbyn hyn mae'n amlycach fyth fod un carfan o bobl a rhai sefydliadau 'arbennigol' yn meddiannu,

diffinio a rheoli ein diwylliant Cymraeg ar ran pawb arall. Arweinir hyn at greu dehongliad cul ac elitaidd o ddiwylliant sydd ond yn ymestyn i rai peuoedd derbynniol, er engrhaiff bod nawdd cyhoeddus yn cael ei gyfyngu i'r hyn a ystyrir fel diwylliant 'safonol' yn ôl gwerthoedd y sawl sy'n rheoli. Hyd yn oed os ystrir y Gymraeg, mae'n parhau i fod yn ddehongliad sydd yn dieithrio cymunedau ac felly yn groes i weledigaeth Cymdeithas yr Iaith.

Ar y ddwy lefel, gwelwn fod y dehongliad a'r defnydd o ddiwylliant yn adlewyrchu pwyslais marchnadol. Hynny yw, mai nwydd i'w dderbyn yw diwylliant yn hytrach na rhywbeth a gaiff ei greu o fewn cymuned. O ganlyniad mae pobl Cymru yn colli rheolaeth ar eu diwylliant.

Cred Cymdeithas yr Iaith fod angen herio'r tueddiadau yma. Ar lefel rhyngwladol, rhaid i Gymru ymuno gyda'r lluaws o genhedloedd sydd yn effro i'r grymoedd hyn ac sydd yn ymateb i'r her trwy ddatgan gwerth eu diwylliannau cenedlaethol. O fewn Cymru, credwn fod yn rhaid herio'r weledigaeth sefydliadol o ddiwylliant gan bwysleisio'r angen am ddiwylliant eang sydd yn effro i ddyheadau'r gymuned.

Cynigiwn yma rai o'r meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt.

## Cyfringau torfol

Credwn fod angen i'n cyfringau cenedlaethol Cymraeg fod yn fwy allblyg ac yn agored i'r byd. Dylid cyflawni hyn, nid trwy droi yn daeogaidd i'r Saesneg, ond yn



hytrach trwy gynnig ein diwylliant Cymraeg yn hyderus fel ein cyfraniad unigryw i amrywiaeth fyd-eang. Am hynny, bydd Cymdeithas yr Iaith yn cefnogi ymdrechion i sicrhau fod S4C a Radio Cymru yn parhau i fod ac i ddatblygu yn gyfryngau penodol Gymraeg. Ar yr un pryd, byddwn yn pwyso arnynt i ddatblygu partneriaethau gyda chyfryngau gwledydd eraill er mwyn sicrhau llwyfan cydwladol i'n diwylliant. Byddai hyn hefyd yn sicrhau ein bod ni fel Cymru yn agored i ddylanwad diwyllianau eraill.

## Teledu

Yn wyneb gwahanol ddatblygiadau technolegol, nid yw bellach yn hanfodol i ganoli'r holl gwmnïau sy'n cynhyrchu rhaglenni ar gyfer S4C, yng Nghaerdydd. O ganlyniad, teimlwn y dylid cymryd camau i ddatganoli'r swyddogaethau yma i wahanol rannau o Gymru.

Serch hynny, nid yw Cymdeithas yr Iaith o'r farn fod newid arwynebol o'r fath ar ben ei hun yn ddigon. Credwn fod yn rhaid wrth newidiadau mwy sylfaenol; sef bod y cyfryngau cenedlaethol hyn yn mynd ati i ymwreiddio yn ein cymunedau. O wneud hynny, byddant yn datblygu i fod yn gyfryngau sy'n mynegi diwylliant cymunedol yn ogystal a bod yn llais cenedlaethol i'n pobl. Credwn y bydd yn dilyn yn naturiol y bydd y darlledu yn Gymraeg ac y bydd llawer o'r rhaglenni – ac felly swyddi – yn cael eu creu yn ein cymunedau.

Fel rhan o hyn, disgwyliwn weld arbrofi gyda dulliau newydd ym myd teledu. Dylid edrych ar y posibilid o greu rhaglenni mewn cymunedau lleol yn hytrach na dibynnu ar ymweliadau achlysurol gan ddarlledwyr proffesiynol. Trwy wneud hyn pwysleisir yr angen i weld cymuned yn creu gyda'i gilydd.

## Radio

Mae'n gwbwl amlwg na ellir cynnig gwasanaeth radio Cymraeg digonol trwy gyfrwng un sianel yn unig. O ganlyniad bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu dros sefydlu ail sianel radio Gymraeg. Nodwn fod y BBC wedi derbyn caniatad i sefydlu pum sianel radio digidol newydd a galwn felly ar i un o'r rhain gael ei chlustnodi fel sianel Gymraeg.

Credwn y dylai sianel o'r fath fod yn seiliedig ar amrywiadau cymunedol ac y dylai roi ystyriaeth arbennig i anghenion pobl ifanc.

## Y Mesur Cyfathrebu

Mae Cymdeithas yr Iaith yn gwrthwynebu'r hyn a amlinellir ym Mesur Cyfathrebu'r Llywodraeth Brydeinig, gan y rhoddir pwyslais ar yr angen i ddadroleiddio'r farchnad gyfathrebu. Byddai symudiad o'r fath yn rhoi rhwydd hynt i rai corfforaethau i ddominyddu'r maes, gan olygu nad yw'r gwasanaethau pwysig hyn yn atebol i anghenion cymunedau.

Yn ogystal, mae'r bwriad i sefydlu OFCOM fel un corff rheoleiddio mawr yn peri gofid. Nid yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriad pendant tuag at le Cymru yn y strwythr newydd.

Fel rhan o hyn, galwn am ddileu'r modd nawddoglyd y caiff y genhedlaeth iau ei thrin ar hyn o bryd gan Radio Cymru. Yn ôl y math yma o agwedd ystyrir mai dim ond cerddoriaeth sydd yn creu rhaglen ieuencid.

Ar yr un pryd, galwn am ddatblygu gorsafodded radio cymunedol. Croesawn symudiadau o'r fath, gan eu bod yn nodi cam tuag at wasanaeth radio sydd yn gwasanaethu cymunedau lleol. Serch hynny, pwysleisiwn fod yn rhaid i fentrau o'r fath gael eu datblygu ar seiliau cadarn. Ni fydd ymdrech arwynebol sydd â'r bwriad syml o wneud elw cyflym yn ateb yr angen, nac yn rhoi lle teilwng i'r Gymraeg.

## Cyhoeddiadau

Galwn am gefnogaeth ymarferol i'r ymdrech bresennol i sefydlu Papur Dyddiol Cymraeg. Mae datblygiad o'r fath yn hollbwysig er mwyn creu diwylliant cenedlaethol sydd yn edrych ar ddiwyddiadau ac yn eu dadansoddi o berspectif Cymreig -golygodd dyfodiad y Cynulliad a'r angen i ohebu yn llawn ar ei drafodaethau fod yr angen am bapur o'r fath wedi cynyddu. Galwn hefyd am ystyried sut y gall cymunedau lleol chwarae rhan yn nhrefniadaeth papur o'r fath, er mwyn sicrhau llwyddiant. Rhaid hefyd wrth bapur Saesneg ei iaith, sydd yn gohebu o berspectif Cymreig yn hytrach na dilyn yr agenda Lundeinig yn slafaid. Pwysleisiwn na fydd gohebiaeth gall na thrafod cyhoeddus teg a democrataidd o'r problemau hynny a wyneba'r iaith a'n cymunedau heb gymryd y camau hyn.

Yn ogystal, cydnabyddwn gyfraniad y sawl sydd yn cynnal y papurau bro. Mae gan y cyhoeddiadau hyn rol bwysig i'w chwarae gan eu bod wedi'u hanelu at gymunedau lleol. Gobeithiwn gyfrannu tuag at sicrhau eu bod yn trafod rhai o'r materion difrifol sydd yn wynebu ein cymunedau.

## Byd cerddoriaeth

Mae gan Gymdeithas yr Iaith draddodiad o fod â chysylltiad arbennig gyda'r byd cerddoriaeth Cymraeg. Am hynny, gobeithiwn gyfrannu tuag at ddatblygu sîn Gymraeg gyffrous – y math o sîn a fydd yn creu'r awydd ymhlith pobl i fynegi eu hunain ac i herio'r drefn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ein nod yw cyfrannu mewn dwy ffordd: yn uniongyrchol, trwy waith ein grŵp adloniant a fydd yn ymgymryd â'r gwaith o greu strategaeth genedlaethol er mwyn hybu

adloniant trwy gyfrwng y Gymraeg; yn anuniongyrchol, trwy ymgyrchu dros gyllid cyhoeddus i hybu sîn Gymraeg o'r fath.

Pwysleisiwn y dylai unrhyw arian cyhoeddus gael ei anelu at y maesydd hynny lle mae gwir ei angen, yn hytrach na'r rhai a ystyrir yn dderbyniol gan y sefydliad Cymreig.

## Technoleg

Nodwyd eisoes bod gwahanol ddatblygiadau technolegol yn cynnig cyfleoedd o bob math. O ganlyniad rhaid sicrhau fod ein diwylliant Cymraeg yn medru cael ei fynegi trwy'r cyfrwng hwn. Mae'n hollbwysig nad yw'r Gymraeg yn cael ei gadael ar ôl ac am hynny galwn ar y Cynulliad i sefydlu tasglu er mwyn sicrhau lle i'r iaith yn y dechnoleg fodern.

Ar yr un pryd, cred Cymdeithas yr Iaith fod y we fyd eang yn cynnig cyfle mawr i ddatblygu elfennau o'n diwylliant ac yn arbennig o ran ymryddhau o'r gafael sefydliadol presennol. Deillia hyn o natur ddemocrataidd a chyfrannogol y we.

## Gwneud y gorau o adnoddau'r gymuned

Er mwyn llwyddo i greu diwylliant Cymreig a gaiff ei greu trwy ymwneud cymunedol, rhaid i ni fedru gwneud y gorau o'n hadnoddau cymunedol. Yn hyn o beth, mae llawer o gyfrifoldeb yn syrthio ar ysgwyddau ein hawdurdodau lleol. Felly er lles ein diwylliant ac er lles ein cymunedau yn gyffredin, bydd Cymdeithas yr Iaith yn galw arnynt i fabwysiadu agwedd holistig tuag at bendefyniadau polisi.

Ceir cyfle o'r fath wrth i awdurdodau lleol ddatblygu eu strategaethau cymunedol. Serch hynny, mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn methu rhoi arweiniad yn y maes. Felly, bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu i sicrhau fod awdurdodau lleol yn gwneud datblygu Cymunedau Cymraeg a bywyd cymunedol yn un o amcanion creiddiol strategaeth o'r fath. Golyga hyn y bydd cryfhau ein diwylliant cymunedol yn un o brif amcanion polisiau tai, cynllunio, trafnidiaeth a datblygu economaidd.

Yn ogystal, er mwyn sicrhau parhad a datblygiad diwylliant cymunedol mae angen rhwydwaith o sefydliadau cymunedol a fydd yn ffocws i'r ymdrechion hyn. Mae adran addysg y maniffesto yn nodi sut y bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu dros

strategaeth i ddatblygu ein hysgolion lleol fel asedau o bwys a fydd yn gyfrwng i adfywio ein cymunedau.


## Pwysleisio gwerth ein pobl ifanc

Yng ngweithrediad pob un o'r pwyntiau uchod, mae'n arbennig o bwysig fod y diwylliant a ddatblygir yn gwerthfawrogi ac yn ymatebol i ddyheadau pobl ifanc. Wedi'r cyfan y garfan hon sydd fwyaf allweddol i ddyfodol yr iaith – mae hyd yn oed ein gwrthwynebwyr gwleidyddol yn cydnabod hyn.

Yn y pendraw golyga hyn roi cyfle gwirioneddol i bobl ifanc i ddylanwadu ar ddigwyddiadau ac i ddefnyddio grym ymhob agwedd o fywyd. Cyfeiriwn at berthnasedd parhaol y gofynion a gwmpasir gan yr alwad am 'Rhyddid i'r Ifanc'. ☪


CASGLIADAU

# Mae'r frwydr yn parhau

 Trwy gyfrwng y maniffesto hwn, tanlinellwyd dro ar ôl tro y modd y mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cynnig gweledigaeth amgen i'r hyn a gyflwynir ar hyn o bryd gan y Sefydliad Cymreig. O wneud hynny, amlygwyd y gwrthdrawiad sylfaenol o ran gwerthoedd sydd yn bodoli. Tra bo'r drefn bresennol yn pwysleisio hawliau unigolion di-wahan o fewn y farchnad, mae Cymdeithas yr Iaith yn dadlau o blaid trefn sydd yn ymestyn i gymunedau yr hawl i reoli eu dyfodol eu hunain – trefn lle bydd yr iaith Gymraeg yn ffynnu.

Yn wyneb her yr oes fodern, pwysleisiwn na ellir trawsnewid rhagolygon y Gymraeg, na rhyddhau ei holl potensial, dim ond trwy gymryd ychydig gamau ymylol. Bydd hyn ond yn arwain at sefyllfa lle caiff yr iaith ei gwthio i'r cyrion a'i defnyddio gan ychydig unigolion ymwybodol, tra bo'r holl syniad o gymuned yn cael ei ddarnio ar allor y farchnad rydd. O ganlyniad, credwn fod yn rhaid wrth newidiadau sylfaenol a phellgyrhaeddol, sydd yn cynnwys ymyrraeth bwrpasol yn y farchnad. Trwy wneud hynny, gallwn ryddhau ac ehangu'r defydd o'r Gymraeg, gan sicrhau ei bod yn parhau yn eiddo i gymunedau cyfan.

Felly, gwelir fod dewis syml yn cael ei osod gerbron bobl Cymru. Gellir naill ai dderbyn gweledigaeth gul y sefydliad, neu gefnogi gwrthweledigaeth gyffrous Cymdeithas yr Iaith.

Mae'r frwydr yn parhau! 

## Maniffesto 2002 ar-lein

Nid yw Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sydd yn sefyll yn ei unfan. Credwn yn gryf y dylid edrych yn feirniadol ar ein hymgyrchoedd a'n polisiau dro ar ol tro, gan ystyried sut y gellir sicrhau eu bod yn parhau yn berthnasol. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn adolygu cynnwys Maniffesto 2002 bob dwy flynedd.

Bydd yr adolygu hwn yn digwydd ar wefan Cymdeithas yr Iaith, [www.cymdeithas.com](http://www.cymdeithas.com). Gallwch chi gyfrannu at y broses hon trwy ymwled â'r safle, neu danfon unrhyw sylwadau sydd gennych at [maniffesto@cymdeithas.com](mailto:maniffesto@cymdeithas.com).

Ein gobaith yw y bydd y broses yma yn hybu trafodaeth a fydd yn arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o'r pynciau a wyntyllir yn y ddogfen hon, ac yn y pendraw, yn gyfrwng i adeiladu ymgyrchoedd cadarn o blaid y Gymraeg.